# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

## PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 20FED HYDREF, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13/10/16)

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Aled Wyn Jones | Charles Wyn Jones |
| Dyfrig Jones | Gweno Glyn | Michael Sol Owen |
| Gethin Glyn Williams | John Wyn Williams | R. H. Wyn Williams |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Trevor Edwards |
| W. Roy Owen | Eirwyn Williams |
| Hefin Underwood | |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason Humphreys | Anwen J. Davies |

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd June Marshall

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Gwynfor Edwards

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mehefin, 2016 fel rhai cywir. (ynghlwm).

**5. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16** 10 - 24

Ystyried adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

**6. ADRODDIAD AR GYNNYDD Y CYNLLUN STRATEGOL CADW'R BUDD YN LLEOL** 25 - 35

Ystyried adroddiad y Rheolwr Craffu Corfforaethol (ynghlwm).

**7. PREMIWM TRETH CYNGOR AR GARTREFI GWAG HIR DYMOR AC AIL GARTREFI** 36 - 65

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid (ynghlwm).

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL DYDD IAU, 16 MEHEFIN 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Jason Humphreys (Cadeirydd);
Y Cynghorydd W.Roy Owen (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Trevor Edwards, Aled Wyn Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, June Marshall, Michael Sol Owen, Eirwyn Williams, Gethin Glyn Williams, John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:-**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)
Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg)
Nia Davies (Rheolwr Polisi Cynllunio)

**Yn bresennol ar gyfer eitemau 7 ac 8 isod:-**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Dirprwy Arweinydd)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 9 isod:-**
Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Eric Merfyn Jones, Dilwyn Morgan, Caerwyn Roberts, Mike Stevens a W.Tudor Owen (aelodau o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau)
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Cynllunio)
Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Rheoleiddio Dros Dro)
Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Lesley Day, Elwyn Edwards, Gweno Glyn, Linda Morgan, Angela Russell, Glyn Thomas a Hefin Underwood.

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Jason Humphreys yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2016/17.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd W.Roy Owen yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2016/17.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Ebrill, 2016 fel rhai cywir.

## 5. YMATEB Y CABINET I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y cyn-gadeirydd, y Cynghorydd Dyfrig Jones, yn adrodd yn ôl ar ymateb y Cabinet i argymhellion y pwyllgor hwn mewn perthynas â'r materion a ganlyn:-

- Strategaeth Caffael Cyngor Gwynedd: Rheolaeth Categori a Chadw'r Budd yn Lleol;
- Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Drafft;
- Budd i Wynedd o Gadw'r Dreth Fusnes.

Nodwyd na chafwyd trafodaeth fanwl ar argymhellion y craffwyr parthed y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Drafft gan fod y Cabinet yn symud ymlaen i drafod y strategaeth yn ystod cyfarfod y diwrnod hwnnw, ond bod sylwadau'r craffwyr wedi'u hystyried fel rhan o'r drafodaeth honno.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod y Cabinet wedi mabwysiadu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth erbyn hyn a bod yr adran wedi derbyn adnoddau ychwanegol ar gyfer ei gweithredu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD YR YMCHWILIAD TAI GWYLIAU A THRETHI

Cyflwynwyd – adroddiad yr Ymchwiliad Tai Gwyliau a Threthi.

Gosododd y Cadeirydd y cyd-destun gan wahodd y Cynghorydd Eirwyn Williams, Cadeirydd yr Ymchwiliad, i gyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol i'r pwyllgor ac i'r Aelod Cabinet Adnoddau.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, diolchodd y Cynghorydd Eirwyn Williams i aelodau'r ymchwiliad a'r swyddogion am eu holl waith, gan hefyd ddiolch i'r swyddogion proffesiynol o'r tu allan i'r Cyngor oedd wedi rhoi o'u hamser i ddod i siarad gyda'r aelodau fel rhan o'r ymchwiliad.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd y gwelir cynnydd parhaus yn nifer y tai sy'n trosglwyddo o'r gyfundrefn Treth Cyngor i'r gyfundrefn Trethi Annomestig a bod angen parhau i bwyso am newid yn y ddeddfwriaeth.
- Awgrymwyd y dylai'r Aelod Cabinet gysylltu â chynghorau eraill er mwyn sicrhau eu bod hwythau'n llawn ddeall y sefyllfa.
- Nodwyd bod y trosglwyddiadau hyn yn fygythiad i sylfaen y Dreth Gyngor.
- Holwyd a ellid dadlau bod Gwynedd yn achos arbennig yn wyneb y nifer uchel o dai mewn aml-feddiannaeth o fewn y sir a bod hynny'n cael ei adlewyrchu gan y Llywodraeth yn eu setliad grant blynyddol.
- Mynegwyd siomedigaeth nad oedd yn hysbys i aelodau'r pwyllgor craffu cyn cyfarfod y Cyngor ar y 3ydd o Fawrth fod angen rhagrybudd o flwyddyn i godi premiwm ar ail gartrefi a bod yr ymchwiliad wedi'i roi fel rheswm dros beidio dod i

benderfyniad erbyn y dyddiad hwnnw ynglŷn â chyflwyno rhybudd ar gyfer gweithredu hynny o flwyddyn ariannol 2017/18 ymlaen.

- Nodwyd bod angen i'r Cyngor benderfynu erbyn Rhagfyr eleni os yw am godi premiwm ar ail gartrefi o 2018/19 ymlaen ac awgrymwyd y dylid ymestyn yr ymchwiliad i edrych ar yr opsiynau (a'r risgiau) ynghlwm â hynny, gan hefyd edrych ar faterion eraill megis y posibilrwydd o godi treth twristiaeth o 5% er mwyn ariannu cyfleusterau o fewn y gymuned. Cytunwyd i drafod hynny ymhellach ar ddiwedd y cyfarfod yng Nghyfarfod Paratoi'r Pwyllgor.
- Nodwyd, er y croesawid addewidion y gwahanol bleidiau gwleidyddol i leihau trethi busnesau bach, y byddai perchnogion unedau hunan ddarpar sydd wedi trosglwyddo i'r gyfundrefn Trethi Annomestig yn elwa o hynny hefyd, ac y dylid lobïo'r Aelodau Cynulliad er mwyn gweld oes yna rywbeth y gellid ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r craffwyr am eu gwaith trylwyr oedd wedi arwain at well dealltwriaeth o'r sefyllfa a nododd ei fod yn derbyn 3 argymhelliad yr ymchwiliad yn y meysydd trethiant, prisio a chynllunio. Ychwanegodd ei fod yn credu fod yr ateb i'r broblem i'w ganfod o fewn y drefn gynllunio. Awgrymodd hefyd y dylai'r pwyllgor craffu edrych ar yr opsiynau (a'r risgiau) ynghlwm â chodi premiwm ar ail gartrefi a chyflwyno awgrymiadau i'r Cabinet. Cytunwyd i drafod hynny ymhellach ar ddiwedd y cyfarfod yng Nghyfarfod Paratoi'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'i gyflwyno i'r Aelod Cabinet Adnoddau.**

## 7. YMGYSYLLTU AR HER GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cynghorwyr John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams, fu'n cynrychioli'r pwyllgor hwn mewn cyfarfod o Grŵp Ymgysylltu Gwynedd ar 5 Ebrill oedd yn cymryd stoc o ymarferiad Her Gwynedd i weld pa wersi y gellid eu dysgu ynglŷn â threfniadau ymgysylltu'r Cyngor i'r dyfodol.

Nodwyd mai un o brif gasgliadau'r grŵp oedd mai un o wendidau posib' Her Gwynedd oedd bod peth o'r cynnwys a ddarparwyd gan y gwasanaethau yn anodd i'r cyhoedd ei ddeall ac yn defnyddio iaith gymhleth a gormod o "dermau Cyngor" na all y cyhoedd eu deall (yn y Gymraeg na'r Saesneg) a bod yr anallu i gyfathrebu negeseuon clir a syml yn wendid y mae angen edrych arno. Awgrymwyd efallai bod lle yma am waith gan Ymchwiliad Craffu neu Grŵp Tasg i edrych ar sut y gellid gwella ar hyn.

Nodwyd y bu'r ymarferiad hwn yn ymarferiad newydd a gwahanol o safbwynt craffu a gofynnwyd i'r aelodau geisio asesu a oedd cryfderau a / neu wendidau i'r trefniadau hyn er mwyn gallu ceisio dod i gasgliad a ellid defnyddio'r math yma o ymarferiad craffu i'r dyfodol, a hynny mewn gwahanol feysydd.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Casglwyd bod yr ymarferiad o safbwynt craffu wedi bod yn ymarferiad llwyddiannus, lle gellid ymgeisio gwneud gwaith tebyg mewn meysydd eraill i'r dyfodol.
- Nodwyd bod y math hwn o ymarferiad yn osgoi dyblygu gwaith.

- Awgrymwyd nad oedd angen i swyddogion fynd gyda'r craffwyr i gyfarfodydd o'r fath ac y dylai'r aelodau lunio eu cofnod / adroddiad eu hunain o gasgliadau'r drafodaeth.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod cynnwys y craffwyr yn y grŵp wedi bod yn werthfawr iawn a manylodd ar y gwaith pellach sydd i'w wneud yng nghyswllt yr ymarferiad Her Gwynedd.

**8. GWAITH CRAFFU PELLACH – SYMYLRWYDD IAITH (WRTH YMGYSYLLTU)**

Cyflwynwyd – sgôp ar gyfer ymchwiliad craffu yn sgil casgliad Grŵp Ymgysylltu Gwynedd mai un o wendidau posib' Her Gwynedd oedd bod peth o'r cynnwys a ddarparwyd gan y gwasanaethau yn anodd i'r cyhoedd ei ddeall ac yn defnyddio iaith gymhleth a gormod o "dermau Cyngor" na all y cyhoedd eu deall (yn y Gymraeg na'r Saesneg) a bod lle, o bosib', am waith gan Ymchwiliad Craffu neu Grŵp Tasg i edrych ar sut y gellid gwella ar hyn.

**PENDERFYNWYD sefydlu Ymchwiliad Craffu Symylrwydd Iaith (Wrth Ymgysylltu) a bod y Cynghorwyr John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams yn aelodau ohono.**

**9. ARBEDION YN YR ADRAN RHEOLEIDDIO**

Croesawyd aelodau o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r cyfarfod i gyd-graffu'r eitem hon gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

**(A) <u>Rhan 1 – Arbedion Pellach</u>**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) yn gofyn i'r pwyllgor graffu cynlluniau arbedion a gyfeiriwyd gan y Cabinet am waith pellach gan y craffwyr, sef dau gynllun yn ymwneud â lleihau cyllidebau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a chynllun yn ymwneud â lleihau'r gyllideb ar gyfer hysbysebu ceisiadau cynllunio.

Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i ddweud gair cyn i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio Dros Dro amlinellu cynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi'r Aelod Cabinet a'r swyddogion a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth:-

- Mynegwyd cefnogaeth i gefnogi staff y Cyngor a'u grymuso.
- Mynegwyd cymeradwyaeth i fod yn edrych ar yr arbedion o safbwynt pobl Gwynedd yn hytrach nag o safbwynt y Cyngor.
- Nodwyd y bydd cydweithio yn haws o hyn allan o bosib'.
- Nodwyd risg gan yr aelodau ynghylch codi ffioedd gan nad oedd manylion yn bodoli ar hyn o bryd.
- Nodwyd bod budd wedi bod o graffu'r adroddiad ar y cyd rhwng y ddau bwyllgor.

Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i grynhoi cyn i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol gloi'r drafodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad, yn cynnwys yr hyn sydd wedi ei gyflawni ar yr arbedion hyd yn hyn.**

**(b) Argymell i'r Cabinet bod yr Adran yn bwrw ymlaen i gyfarfod arbediad o £278,440 drwy weithredu ar gynllun amgen a fydd yn canolbwyntio ar gynyddu incwm, newid strwythur a lleihau risgiau sydd yn rhwystro arbedion sydd wedi eu cymeradwyo rhag eu gwireddu.**

**(c) Bod yr adran yn adrodd ar y cynnydd ar yr holl arbedion a thoriadau ynghyd â ffigurau pendant i ymrwymo iddynt o ran cynllun amgen i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ymhen 9 mis.**

**(B)** <u>**Rhan 2 – Arbedion Pellach – Difa Pla**</u>

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol yn diweddaru'r aelodau ar opsiynau posib' ar gyfer darpariaeth y Gwasanaeth Difa Pla a Wardeiniaid Cŵn i'r dyfodol ac yn gofyn iddynt graffu'r opsiynau a gynigir i gau'r bwlch ariannol presennol.

Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i ddweud gair cyn i'r Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol amlinellu cynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi'r Aelod Cabinet a'r swyddogion a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth:-

- Mynegwyd cefnogaeth i'r ffordd amgen o gwrdd â'r arbedion / toriadau ac am feddwl yn ddyfeisgar.
- Croesawyd y datblygiad i redeg y gwasanaeth fel busnes hunan gynhaliol.
- Pwysleisiwyd yr angen i'r gwaith marchnata gael ei wneud gynted â phosib' er mwyn cynyddu lefel defnydd y gwasanaeth (yn arbennig yn Arfon).
- Nodwyd y risg o gynyddu'r gost yn ormodol (risg y byddai pobl yn mynd â'u busnes i rywle arall), ond croesawyd lefel o 10% yn is na'r farchnad.
- Pwysleisiwyd hefyd bod rhaid cadw enw da'r gwasanaeth, gan barhau i sicrhau fod safon y gwasanaeth yn gyflym ac effeithiol.
- Croesawyd bod gwarant o wasanaeth yr un diwrnod i gleientau bregus, e.e. cartrefi henoed.
- Nodwyd y risg o ddileu'r gwasanaeth – gan fod llawer o'r gwaith yn fewnol gallai arwain at gwmnïau preifat yn codi prisiau uchel iawn, a fyddai yn ei dro yn diddymu unrhyw arbedion.
- Croesawyd mai un pris fyddai i gleientau ar draws y sir.
- Nodwyd yr angen i sicrhau fod modd talu am y gwasanaeth yn rhwydd ac i ddatblygu hynny.
- Nodwyd y negeseuon negyddol yn y wasg, a bod yma gyfle i ymfalchïo mewn cwrdd â'r arbedion sy'n rhaid eu gwireddu mewn modd llawer mwy dyfeisgar.

Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i grynhoi cyn i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol gloi'r drafodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Argymell i'r Cabinet wireddu'r camau a argymhellir yn rhan 3 a 4 yr adroddiad gyda'r nod o wireddu cynnydd mewn incwm oddeutu £40,000 y flwyddyn, yn hytrach na diddymu'r Gwasanaeth Difa Pla yn ei gyfanrwydd.**

**(b) Gofyn i'r gwasanaeth adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ymhen blwyddyn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.25 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **7 a 28 Mehefin 2016**<br>(wedi dethol ar gyfer Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 20 Hydref) |
| **TEITL** | **Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 - meysydd Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol.** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Gyngor Effeithiol ac Effeithlon â Chynllunio Ariannol, yn ogystal ag prosiect Cadw'r Budd yn Lleol, sy'n rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Peredur Jenkins
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y cynllun strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prif negeseuon**

3.1 Trefniadau llywodraethu wedi cryfhau a gwell effeithlonrwydd o ganlyniad i waith prosiectau maes Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, ond mae'n gyn amserol i weld effaith y gwaith ar wasanaethau i bobl Gwynedd.

3.2 Cwblhawyd pedwar prosiect maes Cynllunio Ariannol yn llwyddiannus.

**4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol**

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015/16 yn y meysydd Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol.

Er mwyn atgoffa aelodau, mae geiriad y cynllun strategol wedi ei nodi.

**4.1 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

**C3 Ymgysylltu**

**Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

Mae'r holl weithgareddau oedd wedi eu hadnabod ar gyfer y flwyddyn wedi eu cwblhau eisoes. Yn ystod 2015/16 sefydlwyd trefn newydd i gomisiynu gwaith ymgysylltu ynghyd a log canolog o weithgareddau ar draws y Cyngor.

Yn ogystal, mae gwaith wedi digwydd i ymestyn defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gyda cynnydd o 2,123 yn y nifer o ddilynwyr Trydar (11,702) a chynnydd o 1,576 (5,062) yn y nifer o hoffterau Gweplyfr.

Mae adroddiadau perfformiad blaenorol yn ystod y flwyddyn wedi cyfeirio at waith 'Her Gwynedd' lle y bu i ni ymgysylltu hefo dros 2,000 o bobl ar y rhaglen doriadau. Cynhaliwyd sesiwn hefo'r Grŵp Ymgysylltu (yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgorau Craffu) a staff fu ynghlwm â'r sesiynau yn ystod mis Ebrill er mwyn derbyn adborth ac ar y cyfan daethpwyd i'r casgliad fod yr ymarferiad wedi bod yn llwyddiant. Fodd bynnag, nodwyd fod rhywfaint o wersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol a chytunwyd i wneud gwaith pellach er mwyn eu cyfarch.

Mae yna waith hefyd wedi ei gomisiynu yn sgil sylwadau a wnaed yn flaenorol i sicrhau fod gennym drefniadau priodol ar gyfer ymgysylltu gyda phlant a pobl ifanc, lle mae efallai angen ystyried dulliau ychydig yn wahanol i weddill y boblogaeth.

Dangosir tystiolaeth isod fod y gwaith wedi cael effaith, gyda:

- Panel Trigolion – Trefn newydd yn weithredol sy'n galluogi'r Cyngor i fesur bodlonrwydd pobl Gwynedd gydagwasanaethau'r Cyngor ac adnabod pa feysydd gwasanaeth sy'n dylanwadu fwyaf ar ganfyddiadau trigolion.
- Her Gwynedd - Pobl Gwynedd wedi cael cyfle i gyfrannu'n uniongyrchol i'r gwaith o flaenoriaethu gwasanaethau drwy fynychu cyfarfodydd lleol a / neu drwy lenwi holiadur pwrpasol a'r gwaith hyn wedi dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor. Bydd cyfle i'w ddefnyddio ymhellach i'r dyfodol a chaniatáu i bobl Gwynedd

ddylanwadu ar gyfeiriad ein gwasanaethau. Mae adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd eisoes wedi digwydd ar y cyd gyda Craffu er mwyn cryfhau gallu trigolion Gwynedd i ddylanwadu ar faterion i'r dyfodol.

**C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad.**

**Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.**

Mae mwyafrif y gweithgareddau ar gyfer y prosiect hyn yn 2015/16 wedi eu cyflawni er bod y gwaith o ddatblygu hyfforddiant modiwl perfformiad yn llithro i 2016/17.

Cynhaliwyd Colegau Rheolwyr Adrannol er mwyn ceisio sicrhau fod unedau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd ac yn defnyddio'r mesurau i wella. Yn ogystal, cyflwynwyd y drefn adrodd perfformiad Aelodau Cabinet unigol sydd wedi golygu gwell perchnogaeth o'u meysydd a pherfformiad.

Mae gweithredu'r gyfundrefn yn golygu ein bod yn mesur y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Rydym wedi dechrau gwneud gwahaniaeth trwy ganolbwyntio ar wella ein perfformiad yn erbyn y mesurau hyn.

**C8 Llywodraethu gwybodaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn gwbl ddiogel yn ein dwylo.**

Mae'r holl gerrig milltir ar gyfer y prosiect yn 2015/16 wedi eu cyflawni neu ar waith erbyn hyn. Rydym wedi cynnal rhai sesiynau hyfforddi gyda thimau a siarad gyda rheolwyr unigol i gyfleu iddynt beth yw eu cyfrifoldebau yn hyn o beth. Yn ogystal fe gynhaliwyd sesiwn er mwyn codi ymwybyddiaeth y Penaethiaid a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau.

Mae'r Polisi Diogelu Data wedi ei gynnwys fel rhan o'r Ganolfan Bolisi (ar safle mewnrhwyd y Cyngor) sydd wedi ei lansio i'w gweithwyr gan y Cyngor ac mae'r modiwl e-ddysgu wedi ei baratoi a'i gyflwyno i staff dwy adran. Yn ogystal, defnyddir y drefn archwilio mewnol, lle bo modd, fel modd o wirio cydymffurfiaeth gyda'r Polisi Diogelu Data.

Ychydig o fudd sydd wedi deillio o'r prosiect hyd yma ond maes o law disgwylir y bydd trigolion Gwynedd yn elwa o well trefniadau i gadw gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol.

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**C1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd yn arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae capasiti ychwanegol wedi ei sicrhau i weithio ar y prosiect ac erbyn hyn mae saith adolygiad ar y gweill (Cynnal a chadw ymatebol, Digartrefedd, Gwasanaethau Cefnogol, Gofal Cymdeithasol (Alltwen), Cynnal a Chadw wedi ei raglennu, Addysg a Priffyrdd a Bwrdeistrefol).

Mae'r gwaith o ddatblygu rheolwyr a staff i roi pobl Gwynedd yn ganolog yn parhau gyda gwaith wedi ei gynnal ar sail adrannol i gynorthwyo staff i adnabod anghenion defnyddwyr, pwrpasau a mesuriadau eu gwasanaethau a dadansoddi a dehongli'r wybodaeth hynny.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r egwyddorion ymysg yr Aelodau Cabinet bydd gwahoddiad iddynt fynychu sesiynau sydd wedi eu trefnu ar gyfer Rheolwyr yn ystod yr wythnosau nesaf i edrych ar beth mae'r egwyddorion yn ei olygu ar lefel ymarferol.

Pwysleisir y ffaith nad yw'r adolygiadau eu hunain yn newid diwylliant. Byddwn yn canolbwyntio ar yr elfen newid ymddygiad gan adnabod ymddygiadau ar gyfer Unedau/unigolion a darparu cyfleon i ddysgu drwy eu profiadau eu hunain yn ystod y misoedd nesaf. Yn ogystal, bydd y Penaethiaid a'r Uwch Reolwyr yn mynychu hyfforddiant gan gwmni Vanguard ar Feddylfryd Systemau.

Gwelir tystiolaeth o effaith y gwaith isod, gyda'r gwaith newid ymddygiad yn parhau i fynd yn ei flaen:

**<u>Uned Digartrefedd</u>**

- Lleihad yn y nifer o ddiwrnodau cyfartalog y mae yn ei gymryd i roi unigolion digartref mewn llety o 124 diwrnod cyfartalog yn 13/14 i 70 diwrnod yn 15/16.
- Uchafswm diwrnodau y mae'n ei gymryd i roi unigolion digartref mewn llety wedi lleihau o 455 i 200 o ddiwrnodau yn ystod yr un cyfnod.

**<u>Uned Eiddo</u>**

- Gostyngiad o 19% yn yr amser mae'r cwsmer yn disgwyl i gwblhau gwaith h.y. o 10.1 diwrnod i 8.2 diwrnod.
- Gostyngiad o £7,118 (8.2%) yng nghost cyflawni gwaith trwy ail drefnu gwaith yn fewnol.
- Rhyddhau rhywfaint o amser staff, sydd wedi arwain at £20,000 o arbedion staffio.

**Uned Gefnogol**

- Sustemau cofnodi electronig wedi eu datblygu. Bydd yn arbed amser ar waith gweinyddol i staff ar draws y Cyngor.
- Gwella effeithiolrwydd trin data sydd wedi arwain at arbedion effeithiolrwydd gyda tharged o £116,000. Bydd hyn yn lleihau y gofyn am doriadau mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd

**Iechyd a Gofal**

- Mae'r tîm integredig yn Alltwen bellach wedi dangos fod eu ffordd newydd o weithio yn gwneud gwahaniaeth i gleientiaid trwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn cyfrif iddynt yn hytrach nag yr hyn sydd ar gael. Mae tystiolaeth hefyd fod y gofyn am becynnau gofal wedi lleihau trwy fod yn fwy ystyrlon wrth asesu gofynion unigolion a bydd yr Aelod Cabinet Gofal yn ymhelaethu ar hyn yn ei adroddiad perfformiad ef yn y cylch hwn.

**C2 Rhaglen datblygu arweinwyr**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.**

Mae'r cylch cyntaf o'r drefn gwerthuso newydd wedi ei gwblhau ac mae adborth adeiladol wedi bod i'r drefn oddi wrth aelodau'r Cabinet a'r Grŵp Rheoli a chytundeb wedi ei sicrhau i ymestyn trefniadau tebyg i Uwch Reolwyr yn y Cyngor. Yn ogystal, mae'r ymarferiad $360^0$ (derbyn adborth oddi wrth aelodau o gylch gwaith uniongyrchol gweithiwr) wedi'i gynnal ac mae'r rhan helaethaf o benaethiaid y Cyngor wedi derbyn yr adborth.

Cynhaliwyd sesiwn gweithdy i'r Aelodau Cabinet yn ystod mis Ebrill er mwyn rhoi cyfle iddynt adolygu eu hanghenion datblygol. Derbyniwyd adborth cymysg i'r sesiwn hon gyda rhai o'r Aelodau yn mynegi amheuaeth ynghylch defnyddioldeb y gweithdy ac os oedd yn cwrdd â'r gofynion. O ganlyniad bydd angen ail ystyried addasrwydd darparu sesiynau tebyg ar gyfer gwleidyddion a swyddogion.

Nodir fod adborth gan y Penaethiaid yn awgrymu fod y rhaglen o fudd ond amser a ddengys os bydd yn arwain at well arweinyddion a gwell gwasanaeth i'r cyhoedd.

Mae amheuaeth os yw'r elfen gydag Aelodau'r Cabinet wedi bod yn llwyddiant ac o ganlyniad byddwn yn ail ymweld a'r rhaglen sy'n cael ei gynnig iddyn nhw gan dderbyn adborth gan yr aelodau.

**C5 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol.**

Ychydig o gynnydd sydd wedi bod yn y prosiect hwn o ganlyniad i gwestiwn ynghylch y sylfaen dechnegol i'w defnyddio.

Dros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi mynd yn ei flaen i edrych ar yr opsiynau ar gyfer y sylfaen dechnegol gan edrych ar arfer da o fewn Cynghorau eraill. Yn dilyn y gwaith hwn rydym wedi penderfynu symud ymlaen i ddatblygu ein system ein hunain yn hytrach na phrynu system oddi ar y silff.

Mae'r Aelod Cabinet wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect baratoi achos busnes cynhwysfawr gyda'r bwriad o adrodd yn ôl yn ystod mis Medi.

**C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

**Pwrpas y prosiect hwn yw llunio Strategaeth Technoleg Gwybodaeth fydd yn gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod erbyn diwedd Mawrth 2016.**

Yn ystod y flwyddyn bu gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth gan ymgynghori hefo'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid ynghyd â charfannau o staff ar y prif faterion sydd angen sylw, sut i gyfarch y materion hynny a'r adnoddau fydd eu hangen ar gyfer gweithredu.

Er y bu rhywfaint o lithriad yn yr amserlen wreiddiol ar gyfer llunio'r strategaeth fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Cabinet ar 3 Mai 2016, a chytunwyd i ariannu dwy swydd Rheolwr Cyfrif er mwyn cynorthwyo ei gwireddu.

Ar hyn o bryd does neb wedi cael budd o ganlyniad i'r prosiect ond wrth gyflwyno'r Strategaeth bydd yn arwain at well gwasanaethau gan y Cyngor yn ogystal ag arbed arian i wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd gennym i bobl Gwynedd.

**C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS o fewn o leiaf pum adran erbyn diwedd 2017, er mwyn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol.**

Mae'r prosiect wedi cyflawni'r hyn a amlinellwyd ar gyfer y flwyddyn ac erbyn hyn mae system ar gyfer rheoli dogfennau a chofnodion electronig yn ei lle.

Bu i'r rhan fwyaf o staff yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol drosglwyddo i ddefnyddio'r system yn ystod mis Ionawr/Chwefror a bydd yr Adran

Economi a Chymuned a'r Tîm Arweinyddiaeth yn trosglwyddo dros yr wythnosau nesaf. Erbyn hyn mae oddeutu 150 o staff yn defnyddio'r system.

Mae'n gynamserol i asesu os oes budd wedi deillio o'r prosiect hyd yma ond o gyflwyno'r system bydd yn arwain at arbedion ariannol ac yn sicrhau fod gwell trefn ar gyfer rheoli dogfennau a chofnodion electroneg.

**4.2 Cynllunio Ariannol**

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**CA2 Cytundeb Canlyniadau**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod y Cyngor yn gallu hawlio'r swm llawn o £1.3m sydd ar gael yn 2014/15 ac 2015/16 am gyflawni canlyniadau sydd wedi eu cytuno gyda'r Llywodraeth.**

Yn ystod y flwyddyn paratowyd adroddiad ar berfformiad y Cyngor yn 2014/15 a'i gyflwyno i'r Llywodraeth yn cadarnhau ein bod wedi cyrraedd neu wneud yn well na'r uchelgais a oedd wedi ei osod. O ganlyniad i hyn rydym wedi derbyn taliad o £1.3m.

Mae hyn mae wedi golygu fod y Cyngor wedi gallu osgoi gwneud gwerth £1.3m yn ychwanegol o doriadau.

Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies

**4.3 T2 Cadw'r budd yn lleol**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau bod gan fusnesau'r sir yr wybodaeth a'r gallu i fanteisio ar drefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd y Cyngor.**

Mae'r Cyngor yn caffael canran mawr o'i wariant gyda busnesau lleol sydd werth dros £64miliwn i'r economi leol. Gan ei bod yn holl bwysig sicrhau bod ein cadwyni lleol yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gytundebu gyda'r Cyngor a'r angen i sicrhau dealltwriaeth o drefniadau caffael y Cyngor, mae gwaith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i adnabod y prif rwystrau sydd i'r farchnad leol gystadlu am gyfleoedd sydd yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r prif rwystrau sydd wedi'u codi gan fusnesau yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleon, prosesau a gofynion caffael rhwystredig a chymhleth, ynghyd â diffyg capasiti yn y farchnad leol i gyflawni gwaith a chystadlu amdano. Mae'r prosiect erbyn hyn yn gweithio'n rhagweithiol i ymgysylltu gyda'r farchnad i baratoi cyflenwyr lleol ar gyfer y broses dendro.

Ceir tystiolaeth gref o'r effaith mae rhai o'r cytundebau mawr sydd wedi'i hennill i'r ardal wedi ei gael, ynghyd â'r buddion cymdeithasol sydd wedi deillio o'r rheiny. Er enghraifft, wrth ddefnyddio'r cymalau buddion cymunedol yn y cytundebau, wrth adeiladu Ysgol Bro Llifon, sicrhawyd bod 55% o is-gontractau wedi'u hennill gan gontractwyr yng Ngwynedd. Ceir

enghreifftiau tebyg gydag adeiladu Ysgol Hafod Lon Newydd lle mae'r buddion craidd yn cynnwys:

- Wythnosau profiad gwaith yn cael eu cynnig i fyfyrwyr lleol o'r Colegau
- Dwy swydd wedi'u creu gan isgontractwyr lleol
- Pump o brentisiaethau wedi'u cynnig, ac wedi cael profiad ymarferol ar y safle
- Gwerth 80% o wariant yn gysylltiedig â'r prosiect wedi aros yng Nghymru, 47% o fewn Gwynedd

**Mewnosod tri chategori rheolaeth caffael o fewn y Cyngor**
Mae'r rhan yma o'r prosiect yn ymwneud â ffurfioli a chysoni prosesau caffael y Cyngor drwy fewnosod trefniadau prynu'n strategol (a elwir Rheolaeth Categori). Mae'r Tîm Categori 'Pobl' wedi ei sefydlu a'r ymgysylltiad i sefydlu trefniadau newydd gyda gwasanaethau o fewn y ddau gategori nesaf (Amgylchedd a Chorfforaethol) yn digwydd ar hyn o bryd.

## 5.0 Mesurau

### 5.1 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**CG18 Nifer o ddamweiniau RIDDOR**

(Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations) Edrychwyd ar pam fod y niferoedd yn erbyn y mesur hwn wedi lleihau yn sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd y nifer o ddamweiniau RIDDOR yn 40 yn 15/16 o'i gymharu â 63 yn 14/15, 75 yn 13/14 a 64 yn 12/13. Mae'r mesur hwn yn adrodd yn unig ar ddamweiniau os yw'n trefniadau ni ar fai neu yn ddiffygiol mewn damwain.

Mae lle i gredu fod gweithgareddau sydd wedi eu cynnal gan y gwasanaeth i dargedu meysydd penodol megis Oedolion, a chymorth sydd wedi ei ddarparu i Adrannau wedi cyfrannu tuag at y lleihad hwn a byddwn yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

*Gwasanaeth Taliadau Credydwyr*

**CD6.01 Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)**

Edrychwyd ar berfformiad y mesur hwn (93%) ac eglurwyd bod ffigyrau'r Adran Addysg (ac yn benodol Ysgolion Cynradd) yn effeithio ar berfformiad y mesur. Trafodwyd yr angen i ymateb i'r sefyllfa hyn gan ddal Adrannau yn atebol dros eu perfformiad ac fel cam cyntaf byddaf yn cysylltu hefo'r Aelod Cabinet Addysg gan ofyn iddo roi sylw i'r mater. Byddaf yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa er mwyn penderfynu os oes angen gweithredu ymhellach.

Mesurir canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod ar gyfer unigolion a busnesau lleol yn 2016/17 hefyd.

*Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth*
Nodir fod rhywfaint o anghysondeb rhwng y wybodaeth ar gyfer TG01, TG02 a TG05 (Atodiad 1) o'i gymharu â'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno ynghylch bodlonrwydd adrannau a gwasanaethau a'r Tîm Rheoli Corfforaethol o'r gwasanaeth sy'n codi cwestiynau a ydym yn mesur y pethau iawn er mwyn gwella perfformiad.

O ganlyniad, mae'r Aelod Cabinet wedi gofyn i'r Gwasanaeth ail edrych ar y mesurau gan ofyn iddynt ystyried beth sydd am ddangos neu brofi fod yr Unedau yn cyflawni'r hyn y dylent ei wneud.

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Mae gwaith pellach angen ei wneud er mwyn miniogi rhywfaint ar rai o'r mesurau perfformiad ac ni fyddwn yn dechrau mesur nifer ohonynt hyd chwarter cyntaf 2016/17 .

---

## 6.0 Casgliad

Gwelir cynnydd da ar y prosiectau trawsnewidiol, a thystiolaeth o effaith cadarnhaol ar drigolion Gwynedd yn dod i'r amlwg.

Mae'r pwyslais a roddir gan dimau gwasanaeth y Cyngor ar ddod i wraidd y rhesymau tu nôl i berfformiad eu mesurau yn ogystal â'r gwaith sydd wedi digwydd ar ddatblygu mesurau o'r newydd yn dystiolaeth fod gwasanaethau yn rhoi mwy o bwyslais ar bobl Gwynedd

## 7.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad sydd yn hunan-esboniadol.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

# Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad

## **Mesurau Cyngor Effeithiol ac Effeithlon** (Y Cynghorydd Peredur Jenkins)

| **Mesur- diffiniad** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **2015/16** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol** | | | | | |
| CG2 Nifer o ddyddiau o absenoldeb salwch y pen | 8.52 | 8.20 | 8.62 | Gwelliant | 8.44 |
| CG23 Nifer o achosion cyflogaeth sy'n cael eu cyfeirio i sylw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, a'r nifer o apeliadau sy'n cael eu caniatáu gan y Pwyllgor hwnnw (h.y. mynd yn groes i benderfyniad gwreiddiol y cyflogwr). | - | - | - | Gwelliant | 4 achos apêl wedi ei gynnal.<br>3 apêl wedi ei ganiatáu gan y Pwyllgor |
| CG24 Canran o reolwyr y Cyngor sydd yn dweud fod y Gwasanaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu gallu i gyflawni. | | | | Gosod gwaelodlin | 83% |
| **Sylwadau**<br>CG24 Themâu wedi dod i'r amlwg a thrafodaethau wedi eu cynnal er mwyn mynd i'r afael a'r materion. | | | | | |
| **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant Adnoddau Dynol** | | | | | |
| CG18 Nifer o ddamweiniau RIDDOR | 64 | 75 | 63 | Gwelliant * | 40 |
| CG19 Nifer o ddamweiniau ar draws y Cyngor | 2493 | 2636 | 3350 | Cynnal | 2100 |
| 1. Nifer o archwiliadau I&D (ac yn deillio o hynny, nifer yr achosion diffyg cydymffurfiaeth) | - | - | - | - | 3 |
| 2. Holiaduron bodlonrwydd (Sgôr allan o 10 gan reolwyr gwasanaeth) | - | - | - | - | 7.8 |
| 3. Nifer o ymyraethau Iechyd Galwedigaethol sydd wedi eu targedu ar sail ffigyrau absenoldebau(maes o law beth yw effaith yr ymyraethau hynny) | - | - | - | - | 5 |
| 4. Nifer o ymyraethau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) a nifer o ddiffygion materol | | | | | 1 archwiliad cartref Plas Maesincla<br>2 x diffyg materol |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur- diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau**<br>CG18 Y dair Adran ble fo'r gostyngiad mwyaf – Oedolion, P&B ac Addysg<br>CG19 Gwaith mewnbynnu data heb ei gwblhau ar gyfer ffurflenni damwain 15/16 ac felly ni ellir dibynnu ar y ffigwr hwn.<br>1. Depo Casglu Gwastraff ac Ailgylchu Arfon – 10 mater o ddiffyg cydymffurfiaeth; Ffridd Rasus, Harlech - 4 achos o ddiffyg cydymffurfiaeth; Gweithdy Fflyd Dolgellau – 6 achos o ddiffyg cydymffurfiaeth<br>2. Wedi apelio un ohonynt ond ni fydd hyn yn osgoi y ffi. Ymyrraeth arall oedd ar agor wedi ei gau heb weithredu pellach | | | | | |
| **Uned Gefnogol** | | | | | |
| CG15 Canran bodlonrwydd ymgeiswyr ynghylch y profiad o ymgeisio am swydd gyda'r Cyngor ac adnabod os oes rhwystrau sydd wedi creu problemau di-angen (ac felly os oes modd ei diddymu) | - | - | - | Gwelliant | 80% |
| CG16 Canran bodlonrwydd Rheolwyr a staff perthnasol o fewn y Cyngor i ynghylch y gwasanaeth ac adnabod y rhwystrau maent yn ei gael sydd yn creu problemau iddynt pan yn gwasanaethu pobl Gwynedd (ac felly os oes modd ei diddymu) | - | - | - | Gwelliant | 80% |
| **Sylwadau**<br>Camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r achosion o ddiffyg bodlonrwydd lle mae gennym ddylanwad dros y sefyllfa. | | | | | |
| **Gwasanaeth Datblygu'r Gyfundrefn** | | | | | |
| CG06 Canran o staff ar sail sampl sy'n teimlo bod y buddiannau y maent yn gallu manteisio arnynt gydag effaith positif ar eu bodlonrwydd gyda'r Cyngor fel cyflogwr | - | - | 62% | Gwelliant | 64% |
| **Sylwadau**<br>Gweithgareddau yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r buddiannau sydd ar gael i staff yn dilyn derbyn adborth. | | | | | |
| **Dysgu a Datblygu** | | | | | |
| CG01 Bodlonrwydd staff gyda'r ddarpariaeth dysgu yn eu helpu i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd. | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | 7.8 |
| CG02 Bodlonrwydd Rheolwyr gyda'r ddarpariaeth dysgu yn helpu eu staff i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd. | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | 7.6 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Mesur- diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| CG03 Canran o Aelodau sy'n teimlo bod y ddarpariaeth dysgu yn eu helpu i gyflawni eu rôl i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd. | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | 97% |
| **Tîm Arbedion** | | | | | |
| Arb01 Swm arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd fel canran o'r holl arbedion | - | - | - | Gwelliant | 98.9% |
| DT3.1b Swm arbedion a gyflawnwyd | - | - | - | - | £6.1m |

## **Mesurau Cyngor Effeithiol ac Effeithlon** (Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn)

| Mesur - Diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned Gyfieithu** | | | | | |
| 1. Bodlonrwydd defnyddwyr hefo ansawdd gwaith ysgrifenedig | - | - | 100% | Cynnal | 100% |
| 2. Bodlonrwydd defnyddwyr hefo ansawdd gwaith cyfieithu ar y pryd | - | - | 100% | Cynnal | Dim diweddar ar gael |
| **Tîm Prosiectau (I'w mesur o 2016/17 ymlaen ac union eiriad y mesur i'w gadarnhau)** | | | | | |
| **CG30** Gwerth am arian – buddion ariannol ac anariannol | - | - | - | Gosod gwaelodlin | - |
| **CG31** Canran cwsmeriaid y tîm sy'n dychwelyd | - | - | - | Gosod gwaelodlin | - |
| **Sylwadau**<br>**CG31** Her wedi ei roddi ynglŷn â gwerth y mesur yma. | | | | | |
| **Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad** | | | | | |
| **CytC03** Canran o'r swm a hawliwyd drwy'r Cytundeb Canlyniadau | £1.3m | £1.3m | £1.3m | Cynnal | £1.284m |
| **I'w mesur o 2016/17 ymlaen** | | | | | |
| **CG26** Pobl Gwynedd yn fodlon gyda'r wybodaeth sydd ar gael iddynt am be mae'r Cyngor yn ei wneud ac am ei wneud yn y dyfodol | - | - | - | Gosod gwaelodlin | - |
| **CG27** Ydi'r wybodaeth yn eich helpu chi i wybod sut/beth mae'r Cyngor yn ei wneud | - | - | - | Gosod gwaelodlin | - |
| **CG28** Canran materion sydd i fod i gael Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi cael asesiad | - | - | - | Gosod gwaelodlin | - |
| **CG29** Yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi helpu i wneud penderfyniad | - | - | - | Gosod gwaelodlin | - |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | | | | | |
| **CG13** Bodlonrwydd adrannau gyda chefnogaeth yr Uned i'w helpu i ymgysylltu gyda phobl Gwynedd | - | - | - | Gosod gwaelodlin | 9.2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CG14** Bodlonrwydd Pobl Gwynedd gyda threfniadau cyfathrebu ac ymgysylltu'r Cyngor | - | - | - | Gosod gwaelodlin | Cychwyn adrodd yn 16/17 |
| **Sylwadau**<br>**CG13 -** Dwy adran wedi sgorio llai na 10 a gwersi wedi cael eu cofnodi er mwyn gwella. | | | | | |
| **Ymchwil a Dadansoddeg** | | | | | |
| **CG07** Nifer cwsmeriaid sy'n nodi fod y cymorth wedi eu helpu i gael budd i bobl Gwynedd | - | - | - | Sefydlu gwaelodlin | 26 Do<br>3 Na |
| **CG08** Nifer cwsmeriaid sy'n nodi, ar ôl cael y cymorth, eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth | - | - | - | Sefydlu gwaelodlin | 17 Do<br>12 Na |
| **Sylwadau**<br>**CG07 -** 3 wedi nodi nad oedd y cymorth wedi eu cynorthwyo a chamau wedi eu cymryd i ymateb.<br>**CG08 -** Nifer o'r ymatebion na yn achosion lle nad oedd yn bosib neu fwriad gan gwsmeriaid i wneud y gwaith eu hunain. | | | | | |



## Mesurau Gwasanaeth Cyfreithiol

| Mesur- diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran o holiadur bodlonrwydd gan swyddogion cleient sydd yn sgorio'r gwasanaeth yn ardderchog neu yn dda. | - | 98% | 98% | Cynnal | 100% |
| Y gwasanaeth i gyrraedd anghenion safonau perfformiad Comisiwn Etholiadau ar gyfer Swyddog Canlyniadau mewn etholiad | - | Cyflawni | Cyflawni | Cynnal | Cyflawni |
| Y gwasanaeth i gyrraedd anghenion safonau perfformiad Comisiwn Etholiadau ar gyfer Cofrestru Etholiadol | - | Cyflawni | Cyflawni | Cynnal | - |

* = Ffigwr is yn welliant

## **Mesurau Cynllunio Ariannol** (Y Cynghorydd Peredur Jenkins)

**Gwasanaeth Taliadau Credydwyr**

| Cyf. | Mesur – Diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 94 | 94 | 94 | Cynnal | 93 |

**Gwasanaeth Cyflogau**

| Cyf. | Mesur - Diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD8.07 | Nifer achosion sydd yn arwain at addasiad pellach yn y cyflog. | - | - | - | Cynnal | 492 |
| CD8.08 | Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglŷn â'r broses talu cyflogau o fewn y Cyngor. | - | - | - | Cynnal | 274 |
| CD8.09 | Sicrhau taliadau cywir o fewn y gofyniad amser i gyrff allanol (fel CTheM). | - | - | - | Cynnal | 100 |
| **Sylwadau** | | | | | | |
| CD8.07 | Addasiadau allan o 20,312 taliadau yn y chwarter (0.0049%) | | | | | |
| CD8.08 | 38 allan o'r galwadau yma oherwydd achos o fewn yr uned Gyflogau. (Cyfanswm galwadau yn 1,324 am y chwarter). | | | | | |

Tud. 23

**Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth**

| Cyf. | Mesur - Diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TG01 | Canran yr argaeledd rhwydwaith | 100 | 99.6 | 100 | Cynnal | 99.95 |
| TG02 | Canran yr argaeledd Safle We Gyhoeddus | 99.96 | 99.73 | 99.79 | Cynnal | 99.62 |
| TG05 | Cyfartaledd sgôr bodlonrwydd defnyddwyr gyda'r Ddesg Gymorth | - | 4.73 | 4.8 | Cynnal | 4.8 |
| CD5.13a | Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau hefo'r gwasanaeth a chefnogaeth cyllid (Technoleg Gwybodaeth) | - | - | - | Cynnal | 3 |
| CD5.13b | Bodlonrwydd y Tîm Rheoli Corfforaethol efo'r gwasanaeth cyllid (Technoleg Gwybodaeth) a roddir i'r Cyngor yn gorfforaethol | - | - | - | Cynnal | 3.6 |
| TG16 | Canran o systemau datblygol gan yr uned sydd wedi cwrdd â gofynion y cwsmer | - | - | - | - | Mesur newydd - trefniadau yn cael eu gosod |
| TG17 | Canran o staff a oedd yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei roi gan y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth | - | - | - | - | Mesur newydd - trefniadau yn cael eu gosod |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TG18 | Canran o staff a oedd yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda chyfarpar Technoleg Gwybodaeth sy’n cael ei ddefnyddio | - | - | - | - | Mesur newydd - trefniadau yn cael eu gosod |
| **Sylwadau** | | | | | | |
| CD5.13a a CD5.13b | Sylw wedi ei roi i'r pwyntiau a godwyd er mwyn gwella. | | | | | |
| Her wedi ei gyflwyno i'r Gwasanaeth i ystyried ail edrych ar y mesurau er mwyn sicrhau eu bod yn dangos neu brofi fod yr Unedau yn cyflawni’r hyn y dylent ei wneud. | | | | | | |

**Gwasanaeth Trethi**

| Cyf. | Mesur - Diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | 97.15 | 96.88 | 97.20 | Cynnal | 97.29 |
| CD11.02 | Cyfradd Casglu Trethi Annomestig | 97.57 | 97.79 | 98.2 | Cynnal | 98.13 |
| CD11.03 | Cyfanswm dyledion wedi eu dileu yn y tymor hir (3 mlynedd) fel canran o’r cyfanswm a godwyd ar y cyfrifon tros yr un cyfnod | - | 0.46 | 0.52 | Cynnal* | 0.47 (Mesur Blynyddol) |

**Gwasanaeth Budd-daliadau**

| Cyf. | Mesur - Diffiniad | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd (dyddiau) | 21.67 | 23.1 | 19.74 | Cynnal* | 16.44 |
| CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dal) (dyddiau) | 5.68 | 6.91 | 6.23 | Cynnal* | 5.19 |

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | 20fed o Hydref 2016 |
| **ER SYLW** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **TEITL** | Adrodd ar gynnydd y cynllun strategol cadw'r budd yn lleol |
| **PWRPAS** | Diweddariad i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol 20fed o Hydref 2016 |
| **AWDUR** | Arwel ap Ifan Evans, Rheolwr Caffael Corfforaethol |

Cyflwynwyd yr Adroddiad hwn yn dilyn cais y Pwyllgor Craffu Corfforaethol i dderbyn diweddariad ar gynnydd mewnosod trefniadau newydd o gaffael. Mae'r ymatebion i'r tair rhan isod gan gynnwys yr atodiadau perthnasol.

A. <u>Rheolaeth Categori - Categori Pobl</u>

**I. Fedrwch roi diweddariad o sut mae'r rhaglen waith yn mynd rhagddi ym maes Categori Pobl os gwelwch yn dda? Fedrwch egluro'r rhaglen waith i'r Pwyllgor a'r amserlen gweithredu. B) Pa gytundebau sydd wedi cael sylw hyd yma, a beth arall sydd ar y gweill?**

Gweler Atodiad 1 – Rhaglen Waith Rheolaeth Categori.

Mae'r Rhaglen yn rhestru'r:

- Categorïau
- Prif Gerrig Filltir
- Gwariant presennol
- Targedau Arbedion
- Budd Lleol

Bu i'r Rhaglen Waith gael ei datblygu yn dilyn gwaith dadansoddi gwariant y gwasanaeth ar ddarparwyr.

**II. Pa fudd (os o gwbl) sydd wedi dod o ddefnyddio trefniadau rheolaeth categori ym maes Categori Pobl? Oes gennych dystiolaeth?**

Mae'r Tîm Rheolaeth Categori yn ymgyfarwyddo hefo'r drefn newydd o weithio. Un o wahaniaethau'r drefn yw bod y Tîm yn rhan o'r ystyriaethau o'r cychwyn cyntaf. Credir y Tîm mai un o gryfderau'r drefn yw'r pwyslais ar adnabod a chadarnhau anghenion y defnyddwyr a'r gwasanaeth yn fuan yn y broses.

O safbwynt darparwyr, mae adborth i'r trefniadau newydd wedi bod yn gadarnhaol. Mewn digwyddiad darparwyr diweddar (29/09/16) bu i ddarparwyr nodi eu gwerthfawrogiad i'r ffaith ein bod yn gweithio mewn ffordd ragweithiol. Roedd cydnabyddiaeth i'r ffaith ein bod yn gweithio mewn partneriaeth yn gweithio tuag at y dyfodol.

**III. Sut mae defnyddwyr y gwasanaeth ar eu hennill?**

Tra nad oes gennym enghreifftiau niferus o dendrau sydd wedi eu cwblhau, gallwn nodi'r canlynol:

**Gofal Cartref:**
Trwy ddefnyddio gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg trwy waith Alltwen, rydym wedi adnabod nad yw'r gwasanaeth sydd wedi bod yn cael ei gomisiynu o reidrwydd yn cyfarch yr hyn sy'n bwysig i'n defnyddwyr gwasanaeth. Rhagwelir newid sylfaenol yng nghytundebau'r dyfodol fydd yn rhoi'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn ganolog.

**Taliadau Uniongyrchol:**
Mae'r darparwr oedd yn llwyddiannus yn nhendr Taliadau Uniongyrchol yn gallu cynnig cefnogaeth *'Cyfrif a Reolir'* - a hynny am yr un pris a'r cytundeb blaenorol. Mae'r cymorth yma'n rhoi cefnogaeth trydydd parti ar reolaeth ariannol y cynllun Taliadau Uniongyrchol – agweddau gall fod wedi bod yn rwystr i unigolion ddefnyddio'r cynllun yn y gorffennol.

B. Rheolaeth Categori ar draws y Cyngor

IV. Fedrwch roi diweddariad o sut mae'r rhaglen waith yn mynd rhagddi ym maes Amgylchedd a Chorfforaethol os gwelwch yn dda? Fedrwch egluro'r rhaglen waith i'r Pwyllgor a'r amserlen gweithredu.

Mae dyluniad y ddau gategori Amgylchedd a Chorfforaethol wedi gwblhau. Trefnwyd ar gychwyn y flwyddyn sesiynau ymgysylltu gyda'r swyddogion sydd yn comisiynu a chaffael ar draws y Cyngor. Yn ystod y sesiynau hyn, cyflwynwyd y trefniadau newydd a chymerwyd y cyfle i dderbyn adborth a sylwadau ymarferol.

Mae'r cynllun mewnosod ar gyfer y prif gamau gweithredu nesaf fel y ganlyn:

Hydref – Rhagfyr 2016:

- Trefniadau recriwtio a phenodi swyddogion i'r strwythur newydd

Ionawr i Ebrill 2017:

- Rhaglen datblygu a hyfforddi
- Rhaglennu cynlluniau gwaith

V. Adroddwyd i'r Cabinet 14/04/2015 fod targedau arbedion ym maes Caffael o £2.3m i'w cwrdd (er nad oedd amserlen wedi ei nodi). Faint o'r arbedion hyn sydd wedi ei gwireddu (£)?

Nodwyd yr achos busnes bod potensial i gyflawni arbedion ar ein gwariant caffael o £2.3m dros y 5 mlynedd (2015/16 - 2019/20). Mae £246k o'r targed hyn eisoes wedi gyflawni.

Bu'r Achos Busnes gynnwys cyfanswm targed caffael ar gyfer gwasanaethau Oedolion a Phlant o £1.16m. Mae'r Gwasanaethau eisoes wedi adnabod dros £2.7m o gynlluniau, gyda'r Tîm Categori Pobl yn gweithio gyda'r timau gwasanaeth i weithredu. Hyd yma mae £2.46m o'r cynlluniau hyn ar amser i'w gwblhau o fewn i'w rhaglen.

VI. Beth yw'r amserlen ar gyfer gwireddu'r gweddill? Ydyw hyn yn realistig?

Bydd amserlen yn cyd-fynd gyda'r cynlluniau effeithlonrwydd sydd eisoes yn ei le.

VII. Nododd yr aelodau Craffu ym mis Rhagfyr 2015 "nad oes tystiolaeth hyd yma os yw trefniadau rheolaeth categori yn rhagori ar y drefn flaenorol". Oes tystiolaeth gennych i brofi a yw'r trefniadau rheolaeth categori wedi gwneud gwahaniaeth?

Rhu fuan i allu tystiolaethu hyn yn ei gyfanrwydd, ond yn sicr mae egwyddorion rheolaeth categori wedi cael ei fabwysiadau gydag enghreifftiau ble mae ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i'r strategaeth prynu gan gynnwys ymgysylltu a'r farchnad.

VIII. Unwaith y bydd y trefniadau Rheolaeth Categori wedi eu sefydlu ar draws y Cyngor, lle mae'r atebolrwydd am y gwahanol dimau categori?

Mae'r cyfrifoldeb am bolisïau ac ein perfformiad caffael yn eistedd gyda'r Aelod Cabinet Mandy Williams-Davies.

Bydd y Timau Categori yn adrodd yn broffesiynol i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol gyda'r atebolrwydd perfformiad gyda'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid canlynol:

- Tîm Categori Amgylchedd - Cyng. John Wynn Jones a Phennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol
- Tîm Categori Corfforaethol - Cyng. Gareth Roberts a Phennaeth Rheoleiddio
- Tîm Categori Pobl - Cyng. Dafydd Meurig a Phennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Llywio i orchwylio'r trefniadau newydd. Bydd y Grŵp yma yn cynnwys Pennaeth Cyllid, Economi ac Adfywio a Phennaeth Chefnogaeth Gorfforaethol a'r Rheolwr Caffael Corfforaethol.

C. Cadw’r Budd yn Lleol

IX. Gofynnir i chi gynnwys gwybodaeth ddiweddaraf am y perfformiad ar wariant gyda chwmnïau ‘lleol’:

| **Mesur Gwariant Lleol** | **Cyfnod Ariannol 2015-16** |
|---|---|
| **Gwynedd** | |
| Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau o fewn y Sir (os yw'r brif swyddfa gyda chod post o fewn y Sir) | *38% |
| Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau sydd a’i bencadlys neu gangen yng Ngwynedd yn ogystal ar gwariant sydd yn dod yn ôl i mewn i Wynedd drwy is-gontractau. (data wedi ei dderbyn o systemau Atamis) | 55% |
| **Gogledd Cymru**<br>Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmniau o fewn Gogledd Cymru (os yw'r brif swyddfa gyda chod post o fewn Gogledd Cymru) | 56% |
| **Cymru**<br>Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmniau o fewn (os yw'r brif swyddfa gyda chod post o fewn Cymru) | 63% |

* Esboniad o’r canran o wariant aeth i gwmnïau o Wynedd 2015/16:

Mae’r gostyngiad yn y canran lleol i 38% yn bennaf yn gysylltiedig ar faith bod darparwyr o du allan i Wynedd wedi llwyddo i ennill canran uchel o brosiectau sylweddol yn y maes adeiladwaith. Er enghraifft, gweler cwmni Wynne Construction (a leolir yn Ninbych) yn ennill mwyafrif o gontractau adeiladu “Ysgolion yr 21ain Ganrif”. Serch hyn gwelwyd dros £3.4m yn dod yn ôl i mewn i Wynedd drwy gytundebau is-gontractau ar waith adeiladu Ysgol Hafod Lon yn unig.

Rydym hefyd wedi gweld gostyngiad sylweddol, bron i £13m yng ngwariant y Cyngor yn y meysydd Peirianneg Sifil a Arwynebu Ffordd, ble mae darpariaeth leol yn gryf.

X. Pa fuddion ehangach sydd wedi eu sicrhau drwy'r cymalau cymdeithasol (tros y flwyddyn diwethaf)?

*Cynlluniau Adeiladu Ysgolion*

Hyd at Mai 2016, mae’r Cynllun Adeiladu Ysgol Hafod Lon wedi cyflawni:

- 5 o fyfyrwyr o Goleg Menai a Choleg Meirion/Dwyfor wedi cael wythnos o brofiad gwaith ar y safle

- 3 Is-gontractwr lleol wedi gallu cyflogi 10 aelod o staff newydd fel canlyniad o'r prosiect, 4 o'r rhain yn barhaol
- 800 o wythnosau o hyfforddiant wedi cael ei gyflawni gan gynnwys gwaith prentisiaid, hyfforddiant tuag at gymhwyster NVQ , Arwain a Rheoli ac Arolygwyr i Is-gontractau
- Nifer o ddigwyddiadau yn cefnogi'r cwricwlwm
- 47% o wariant y prosiect yn mynd i fusnesau o Wynedd

Ar y gorwel:

Cynlluniau buddion cymdeithasol i'w cyflawni yn ystod cyfnod adeiladu Ysgol Glancegin Bangor, gan gynnwys targedau hyfforddi tebyg.

*Cytundeb Bwyd*

Wedi cyflawni:

- Bu Gwasanaeth Bwyd Harlech gynnig 10 swydd Cynorthwywyr Fan dros haf ar gyfer pobl ifanc lleol, ystod oedran 16-19. Yn ogystal, cyflogwyd 8 unigolyn pellach a dychwelyd ar gyfer eu hail flwyddyn.
- Ymwelwyd 10 o blant o Ysgol Botwnnog a safle Bwyd Harlech fel rhan o fodiwl TGAU mewn Astudiaethau Busnes.
- Profiad gwaith am wythnos ar gyfer 3 plentyn o Ysgol Glan y Môr, Pwllheli, ac Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.
- Ymwelwyd 10 disgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda a gafodd brofiad ymarferol yn cynhyrchu cynnyrch gyda chwmni Chig Llechwedd.

Ar y gorwel:

- Bydd Gwasanaeth Bwyd Harlech a Ffrwythau DJ gyfrannu basged fwyd bob blwyddyn i bob Cartref Gofal a Phreswyl yng Ngwynedd, i gefnogi unrhyw ddigwyddiad codi arian.
- Bydd 20 aelod o Grŵp Ffermwyr Ifanc lleol yn ymweld â safle Gwasanaeth Bwyd Harlech fis Ionawr 2017.

XI. Cafwyd peth cyhoeddusrwydd gwael i'r Cyngor yn sgil dyfarnu contractau bwyd gyda darparwyr lleol yn colli allan. Pa waith pellach sydd wedi digwydd gyda chwmnïau lleol i'w cynorthwyo i ddatblygu'r farchnad (eto diweddariad o beth sydd wedi digwydd ers mis Ionawr 2016)?

Cafwyd arolwg annibynnol gan Brifysgol Bangor o'r trefniadau cytundebu darparwyr Bwyd. Bu'r Brifysgol gyflwyno canfyddiadau i'w astudiaeth i'r Tîm Arweinyddiaeth yn ystod gyfarfod y 6ed o Fedi.

Prif sylwadau'r Brifysgol oedd:

- Trefn a phroses cynhwysfawr
- Canlyniadau calonogol i gadw'r budd yn lleol ac arbed arian serch y cyhoeddusrwydd gwael
- Ble yn briodol, dyled ymdrechu i roi mwy o bwyslais ar gryfderau busnesau lleol yn y meini prawf. Sut bynnag mae hyn yn anodd gan ystyried cyfyngiadau cyfreithiol a phwysau ariannol y Cyngor.
- Mae busnesau angen deall a chydnabod pam nad ydynt yn ennill cytundebau fel eu bod yn gallu paratoi'n well y tro nesaf.

Yn ychwanegol ar gyfer cynorthwyo busnesau lleol mae'r Uned Gaffael ac yr Uned Cefnogi Busnes wedi:

- Codi ymwybyddiaeth o gyfleon caffael, drwy gynnal digwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth drwy rwydweithiau cyfathrebu.
- Cynnig cefnogaeth a'r gyfleon tendr penodol fel, Taliadau Uniongyrchol, Torri Gwair, ac yn ddiweddar Gofal Dydd ac Adnewyddu Pibellau Dwr gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd.
- Ymgysylltu gyda'r farchnad yn ogystal â dadansoddi gwariant y Cyngor i adnabod rhwystron i fusnesau a mentrau lleol allu cystadlu am waith.
- Creu canllawiau ac ymarfer orau i brynwyr a busnesau lleol.

XII. Beth oedd canlyniadau'r contract hynny ac a oes gwersi wedi ac i'w dysgu?

Taliadau Uniongyrchol: Roedd ymgysylltiad cynnar gyda'r farchnad i godi ymwybyddiaeth o'r cyfle a lle i dderbyn cymorth. Er hyn, gwelwyd cwmni Rowan o Loegr yn fuddugol. I sicrhau budd lleol, un amod o'r contract yw bod y cwmni buddugol gyda phresenoldeb lleol. Mae Rowan wedi sefydlu cangen ym Mharc Menai, Bangor a gyda'r gallu i ddarparu'r gwasanaeth yn ddwyieithog.

Torri Gwair: Bu ymdrech sylweddol i ymgysylltu ac adnabod 24 o gwmniau lleol all gystadlu am y cyfle. Cynhaliwyd cyfarfodydd un i un i dderbyn sylwadau ar rwystron iddynt allu cystadlu yn ogystal â lle i dderbyn cymorth. Cynhaliwyd gweithdy ar "Sut i Dendro" drwy Fusnes Cymru.

Gwelwyd cwmni o Sir Fflint yn ennill ardaloedd Arfon a Meirionnydd, a chwmni o Geredigion a Pwllheli ennill ardal Dwyfor.

Mae' amlwg bod angen ystyried sut allwn gefnogi busnesau lleol wrth gaffael gwasanaethau'r Cyngor. Ond serch y cymorth a strategaeth sydd yn cael ei fabwysiadau nid ydym yn gallu gwarantu bod busnesau lleol yn ennill drwy drefniadau cystadleuol a thryloyw.

Yn ogystal, wth i ni ddadansoddi'r adborth y farchnad a phatrymau gwariant y Cyngor gwelsom fod cyfleoedd yn gystadleuol iawn ac ar adegau nid oes gan y farchnad leol yr adnoddau, arbenigedd ac mewn rhai achosion yr awydd i gystadlu am waith y Cyngor.

Serch hyn, mae'r Cyngor yn benderfynol o geisio uchafu'r budd lleol ac i'r dyfodol bydd yn rhan allweddol o'm strategaethau caffael i leihau'r rhwystron a darparu cefnogaeth i fusnesau a mentrau allu tendro'n llwyddiannus.

I gyflawni hyn byddwn yn:

- Rhyddhau negeseuon rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a lle i dderbyn cymorth.
- Ymgysylltu'n fuan i baratoi'r farchnad.
- Cefnogi busnesau i ysgrifennu ceisiadau o safon yn ogystal ag adolygu prosesau a pholisïau i fod yn fwy cystadleuol.
- Codi ymwybyddiaeth a chyswllt gyda rhai o brif gontractwyr phrosiectau sylweddol y Cyngor fel gall busnesau llai fanteisio ar gyfleoedd is-gontractio.

## Atodiad 1: RHAGLEN WAITH RHEOLAETH CATEGORI

| Categori | Darparu Mewnol £ | Darparu Allanol £ | Targed Arbedion % | Cyfanswm Targed Arbedion £ | Budd lleol | Prif garreg filltir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **GOFAL CARTREF** | £ 3,786,638 | £ 3,774,086 | Nid oes targed wedi ei osod yn erbyn y cynllun. | | 1) Strategaeth lotio yn cael ei ystyried<br>2) Ymgysylltu gyda'r farchnad a rhanddeiliad wedi cychwyn<br>3) Peilota cefnogaeth pellach drwy archwiliad iechyd tendro | 1) Prosiect Gofal Cartref – fforymau ymgynghori hefo darparwyr yn parhau<br>2) Cyfres o sesiynau 1-1 pellach rhwng swyddogion a darparwyr<br>3) Cytundeb Fframwaith newydd erbyn 01/04/17 |
| **LLETY A CHEFNOGAETH OL-16** | £ - | £ 330,922 | 8% | £ 26,473.76 | Ymgysylltu a pharatoi'r farchnad | 1) Gwath cynllunio wedi gwblhau<br>2) Ymgysylltu a rhagrybudd a'r farchnad nesaf |
| **GOFAL DYDD** | £ 457,130 | £ 52,820 | 10% | £ 50,995.00 | Ymgysylltu a pharatoi'r farchnad | 1) Gwaith dadansoddi yn parhau |
| **LLETY A CHEFNOGAETH (ANABLEDDAU DYSGU)** | £ 1,269,260 | £ 7,205,950 | 8% | £ 678,016.82 | Ymgysylltu a pharatoi'r farchnad | 1) Dadansoddi adborth y darparwyr |
| **GOFAL YSBAID (ANABLEDDAU DYSGU)** | £ 15,000 | £ 330,590 | 39% | £ 128,930.10 | Ymgysylltu a pharatoi'r farchnad | 1) Ymgysylltu hefo defnyddwyr gwasanaeth eu teuluoedd a darparwyrynglyn â datblygu modelau ysbaid i'r dyfodol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TENDR BWYD** | £ - | £ 2,300,000 | 20% | £ 460,000.00 | 1)75% o ddarpariaeth gan gwmniau o Wynedd.<br>2)Buddion Cymdeithasol ehangach. | 1) Cytundeb yn ei le ers 1.4.16<br>2) Cyflwyno diweddariad arbedion i'r Cabinet yn ystod Hydref<br>3) Buddion cymdeithasol yn cael ei weithredu (profiadau a lleoliadau gwaith i bobl ifanc)<br>4) Swyddog y Tim yn monitro'r gytundeb |
| **TALIADAU UNIONGYRCHOL** | £ - | £ 62,500 | Cyflawni cynllun effeithlonrywdd (Cynllun OED14 £190K) | 1) Gytundeb wedi osod o fewn y gyllideb gyfredol<br>2) Monitro niferoedd o 'referrals' fydd yn arwyddocad o leihad yn alw am wasaneth gofal llawn . | 1) Cwmni buddiogol o Loegr wnaeth ennill y broses dendr (Rowan)<br>2) Amod o'r gytundeb bod y wasanaeth yn cael ei ddarparu'n ddwy ieuthog a bod cangen lleol ar gael | 1) Cytundeb yn ei le ers Gorffennaf 2016<br>2) Swyddog y Tim yn monitro'r gytundeb |
| **Categoriau Nesaf:** | | | | | | |
| **Cludiant (sedfydlu trefniadau gyda'r Adran Rheoleiddio)** | | | | | | |
| **Teleofal** | | | | | | |
| **Adfocatiaeth** | | | | | | |
| **Preswyl a Nyrsio** | | | | | | |
| **Cytundeb Cyn-leoli** | | | | | | |
| **Cytundebau 3ydd Sector (linc llesiant)** | | | | | | |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| DYDDIAD | **20 HYDREF 2016** |
| TEITL | **PREMIWM TRETH CYNGOR AR GARTREFI GWAG HIR DYMOR AC AIL GARTREFI** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI CYFLE I'R PWYLLGOR GRAFFU AC YSTYRIED BUDDION A RISGIAU CODI PREMIWM** |
| PENNAETH ADRAN PERTHNASOL | **DAFYDD EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| SWYDDOG CYSWLLT | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |

---

**1. BETH YW'R MATER SYDD YN CAEL EI YSTYRIED FEL EITEM CRAFFU?**

1.1 Adroddodd yr Ymchwiliad Craffu Trethi a Thai Haf i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Corfforaethol gynhaliwyd ar 16/06/2016. Derbyniodd yr Aelod Cabinet Adnoddau yr argymhellion yn ystod y cyfarfod.

1.2 Yn ystod y cyfarfod gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Aelodau Craffu ymestyn yr ymchwiliad gan edrych ar y risgiau a'r budd o osod premiwm ar dai haf. Gan fod yr amserlen ar gyfer y gwaith ynghlwm â 'ystyried gosod premiwm' yn hynod fyr, a'r maes gwaith yn un cymhleth a thechnegol iawn, bu i'r Aelodau Craffu benderfynu peidio ag ymestyn yr ymchwiliad ymhellach. Yn hytrach gofynnwyd i'r Aelod Cabinet am adroddiad yn amlinellu'r opsiynau a'r risgiau/budd o godi premiwm, i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 20/10/2016 fel ei fod yn cael ei graffu cyn i'r Cyngor ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2016.

**2. BETH ALL Y PWYLLGOR CRAFFU EI YSTYRIED?**

**2.1 Esboniwch yn gryno beth yw'r hawliau sydd gan Gynghorau ynghylch codi premiwm (a beth yw'r gofynion ar gyfer gweithredu hyn)?**

2.1.1 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu Adrannau 12A a 12B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo gwag hir dymor (Adran 12A) ac ail gartrefi (Adran 12B).

2.1.2 Mae'r Ddeddf yn diffinio eiddo gwag hir dymor, at bwrpasau codi Premiwm Treth Cyngor, fel a ganlyn: "***a dwelling is a "long-term empty dwelling" on any day if for a continuous period of at least 1 year ending with that day it has been unoccupied, and it has been substantially unfurnished***".

2.1.3 Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "anheddau gyda preswylio o bryd i'w gilydd (*dwellings occupied periodically*)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "***there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished***". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.

2.1.4 Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru osod eithriadau penodol (mewn dosbarthiadau) lle na ellir gosod premiwm Treth Cyngor. Gwnaethant hynny trwy Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068) a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2016. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r eithriadau lle **na allwn** godi'r premiwm:

| **Dosbarthiadau o Anheddau** | **Diffiniad** | **Y math o eiddo sy'n gymwys i'r eithriad rhag talu'r premiwm** |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn | Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi |
| Dosbarth 2 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn | |
| Dosbarth 3 | Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd | |
| Dosbarth 4 | Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog | |
| Dosbarth 5 | Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod. | Ail Gartrefi |
| Dosbarth 6 | Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn | |
| Dosbarth 7 | Anheddau cysylltiedig â gwaith | |

## 2.2 Beth yw'r sefyllfa mewn Cynghorau eraill? Oes eraill wedi codi premiwm ac a yw'r effaith o weithredu yn hysbys?

2.2.1 Mae cynghorau Sir Benfro, Ceredigion, Ynys Môn a Conwy wedi penderfynu cyn diwedd Mawrth 2016 y byddant yn codi premiwm Treth Cyngor o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Dyma'r lefelau a ddatganwyd:

| | |
|---|---|
| Penfro | Premiwm o 50% ar ail gartrefi; penderfyniad ar dai gwag hir dymor yn ystod 2016/17. |
| Ceredigion | Premiwm o 25% ar dai gwag hir dymor ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017. |
| Ynys Môn | Premiwm o 25% ar dai gwag hir dymor ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017, i'w adolygu yn ystod 2018/19. |
| Conwy | Premiwm o 100% ar dai gwag hir dymor ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017 (ond y % i'w ail ystyried). |

2.2.2 Dyma grynodeb o ganlyniad gwaith ymgynghori yn yr awdurdodau cyfagos sydd eisoes wedi penderfynu codi premiwm:

| | |
|---|---|
| Penfro | Cyfnod ymgynghori rhwng 27 Ionawr 2016 a 22 Chwefror 2016. Derbyniwyd 1,057 ymateb. O'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad roedd 887 (84%) yn datgan eu bod yn berchennog ail gartref yn y sir. Roedd 74% o'r rai a ymatebodd i'r ymgynghoriad unai yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda codi premiwm. |
| Ceredigion | Cyfnod ymgynghori rhwng 11 Chwefror 2016 a 2 Mawrth 2016. Derbyniwyd 50 ymateb, gyda 74% ohonynt yn berchen ar ail gartref neu eiddo gwag hir-dymor. Er hynny, 40% oedd yn erbyn codi premiwm, gyda 58% o blaid a 2% yn niwtral. |
| Ynys Môn | Cyfnod ymgynghori rhwng 16 Chwefror 2016 a 4 Mawrth 2016. Derbyniwyd 331 ymateb. Roedd 78% o'r rai a ymatebodd i'r ymgynghoriad unai yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda codi premiwm. |
| Conwy | Ni fu ymgynghoriad cyhoeddus cyn gwneud y penderfyniad, ond bu un wedyn. Disgwylir y bydd canlyniad hyn yn cael ei ystyried yn ystod 2016/17. Gellir addasu lefel y Premiwm o 1 Ebrill 2017 yn y ystod 2016/17, gan mai dim ond y penderfyniad cyntaf sydd rhaid ei wneud o leiaf blwyddyn ymlaen llaw. |

2.2.3 Gan na fydd y premiymau yn dod yn weithredol tan 1 Ebrill 2017, credir na fydd gwir effaith y premiwm yn dod i'r amlwg yn llawn tan y bydd y biliau ar gyfer 2017/18 wedi cael eu hanfon allan.

## 2.3 Beth yw'r opsiynau ar gyfer codi premiwm yng Ngwynedd a beth yw'r risgiau/ budd ynghlwm â'r opsiynau hynny?

Opsiwn 1 – caniatáu disgownt

2.3.1 Mae Rheoliadau yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, neu i ganiatáu disgownt o 25% neu 50% i ddosbarthau ail gartrefi, ac i ganiatáu disgownt 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl, ar eiddo gwag hir dymor sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

2.3.2 Ers sawl blwyddyn, mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu nad yw am ganiatáu unrhyw ddisgownt i eiddo gwag nac i ail gartrefi. Rhaid i'r Cyngor llawn gymryd y penderfyniad yma yn flynyddol; gwnaeth y penderfyniad i beidio caniatáu disgownt ar gyfer 2016/17 yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2015.

2.3.3 Mae'r Rheoliadau yma yn parhau mewn grym, ac felly mae'n parhau'n opsiwn i'r Cyngor gynnig y disgownt a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, byddai cynnig hynny nawr yn mynd yn groes i bolisi sydd wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn, heb sôn am yr effaith ariannol ddifrifol.

Opsiwn 2 – dim disgownt na premiwm

2.3.4 Nid oes unrhyw newid deddfwriaethol a fyddai'n rhwystro'r Cyngor rhag parhau gyda'r hyn y mae wedi ei wneud ar hyd o bryd, sef codi Treth Cyngor 100% ar eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi.

Opsiwn 3 – codi premiwm

2.3.5 Os bydd y Cyngor am godi premiwm, mae'r Treth Cyngor ychwanegol wedi ei gyfyngu i 100% o'r Treth Cyngor llawn. Hefyd, ni all y Cyngor godi premiwm Treth Cyngor os na all godi Treth Cyngor "sylfaenol" yn y lle cyntaf (e.e. ar gartrefi myfyrwyr llawn amser).

Niferoedd: Ail Gartrefi

2.3.6 Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ail gartrefi dosbarth B (h.y. y rhai y gellid codi premiwm arnynt), ar 1 Gorffennaf 2016:

| Band Treth Cyngor | Nifer Eiddo | Treth |
|---|---:|---:|
| A | 538 | £532,087 |
| B | 752 | £864,906 |
| C | 873 | £1,146,099 |
| D | 1043 | £1,538,620 |
| E | 822 | £1,481,150 |
| F | 564 | £1,201,715 |
| G | 210 | £515,831 |
| H | 25 | £73,887 |
| I | 14 | £48,292 |
| Cyfanswm | 4841 | £7,402,586 |

2.3.7 Yn unol â penderfyniad blynyddol y Cyngor (y diwethaf ar 10 Rhagfyr 2015), ni ganiateir unrhyw ddisgownt i ail gartrefi, sy'n golygu fod yr eiddo hyn yn cynhyrchu incwm Treth Cyngor o £7.4miliwn.

Niferoedd: Tai Gwag Hir Dymor

2.3.8 Ar 1 Gorffennaf 2016, dyma oedd nifer y Tai Gwag Hir Dymor:

| Band Treth Cyngor | Nifer Eiddo | Treth |
|---|---:|---:|
| A | 339 | £ 335,588 |
| B | 373 | £ 431,276 |
| C | 263 | £ 347,203 |
| D | 205 | £ 303,264 |
| E | 143 | £ 258,360 |
| F | 62 | £ 132,624 |
| G | 19 | £ 46,739 |
| H | 5 | £ 14,800 |
| I | 2 | £ 6,851 |
| Cyfanswm | 1429 | £ 1,876,706 |

2.3.9 Mae'r diffiniad o "gwag hir dymor" yn amrywio o fewn y ddeddfwriaeth. Mewn cyfrifiadau Treth Cyngor arferol, mae eiddo yn wag yn y tymor hir os yw wedi bod yn wag am 6 mis, ond at bwrpasau codi'r Premiwm, rhaid i'r eiddo fod wedi bod yn wag am o leiaf 12 mis. Mae'r 1,429 eiddo a ddangosir uchod wedi bod yn wag ers 6 mis – 1,115 o'r rhain sydd wedi bod yn wag ers blwyddyn neu fwy. Amcangyfrifir fod yr incwm Treth Cyngor cyfredol o'r 1,115 eiddo sydd wedi bod yn wag am blwyddyn neu fwy yn £1,464,706.

2.3.10 Er fod cyfanswm yr incwm Treth Cyngor o ail gartrefi a thai gwag hir-dymor yn **£8,867,292** (£7,402,586 + £1,464,706), ni allwn ddisgwyl y byddai Premiwm o 100% yn denu yn agos at y swm yma o incwm ychwanegol. Nid yw'r cyfanswm yma yn cynnwys unrhyw un o'r eithriadau y cyfeirir atynt uchod, nac ychwaith yn ystyried yr anheddau pellach a allai drosglwyddo i fod yn unedau hunan-ddarpar, ac wrth hynny'n dod o fewn y gyfundrefn trethi busnes.

Bygythiadau a Chyfleoedd – Unedau Hunan-darpar

2.3.11 Mae'r Pwyllgor Craffu yn llwyr ymwybodol, yn sgil yr ymchwiliad cynhwysfawr a gynhaliodd yn ystod 2015/16, o'r bygythiad o eiddo yn trosglwyddo o fod yn gartrefi sy'n destun Treth Cyngor i fod yn Uned Hunan-ddarpar. Dyma'r niferoedd sydd wedi trosglwyddo yn y 5 mlynedd llawn ddiwethaf:

| Blwyddyn Ariannol | Nifer net sydd wedi trosglwyddo o TC i NDR |
|---|---|
| 2011/12 | 106 |
| 2012/13 | 110 |
| 2013/14 | 82 |
| 2014/15 | 188 |
| 2015/16 | 166 |
| **Cyfanswm** | **652** |

2.3.12 Rhoddwyd cryn sylw i'r trosglwyddo yma yn ystod yr Ymchwiliad Craffu, a gwelwyd fod rhaid i Swyddfa'r Asiantaeth Brisio dderbyn tystiolaeth fod eiddo wedi bod ar gael i'w osod am 140 diwrnod o fewn y flwyddyn flaenorol gyda gwir osod am 70 diwrnod, ac fod bwriad i osod yr eiddo am 140 diwrnod yn ystod y flwyddyn nesaf. Er hynny, roedd pryder am gapasiti o fewn yr Asiantaeth i gynnal gwiriadau trylwyr.

2.3.13 Mae gwir fygythiad, felly, y gallai'r tueddiad o eiddo'n trosglwyddo gyflymu petai premiwm yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i swyddfa'r prisiwr weithredu'n gadarn wrth asesu os yw eiddo'n gartref neu fusnes, a sicrhau tystiolaeth briodol i gefnogi unrhyw gais. Ymhellach, os bydd y Cyngor yn cynyddu'r dreth ar ail gartrefi, rydym yn disgwyl y byddwn yn ennill mwy yn ariannol nag y byddwn yn colli.

Bygythiadau a Chyfleoedd – Eithriadau

2.3.14 Bygythiad arall yw'r risg o berchnogion eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi yn hawlio un o'r eithriadau a restrir yn rhan 2.1.4 uchod. Fel y gwelir, mae 4 eithriad yn bodoli ar gyfer eiddo gwag hir dymor, a 7 ar gyfer ail gartrefi. Yn wahanol i eiddo'n trosglwyddo i unedau hunan-ddarpar, byddwn yn parhau i allu codi Treth Cyngor ar yr eiddo yma, ond nid y premiwm.

2.3.15 Mae cyfyngiad amser i rai o'r eithriadau hyn hefyd. Er enghraifft, dim ond am flwyddyn y gellir hawlio eithriad am fod tŷ ar werth neu ar gael i'w osod.

2.3.16 Mae copi o'r Canllawiau Statudol, sy'n rhoi mwy o fanylion am yr eithriadau yn ogystal â gofynion mandadol eraill, wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

Dadansoddi Effaith Codi Premiwm

2.3.17 Er mwyn modelu effaith codi'r premiwm, rhaid gwneud cyfres o ragdybiaethau ac yna dadansoddi effaith rhain. Dyma ddau enghraifft ar sail dadansoddiad sensitifrwydd**. Pwysleisir mai at bwrpas dangosol y mae'r ffigyrau hyn.**

Enghraifft 1

- Premiwm: **100% o'r cychwyn**
- Nifer yr ail gartrefi ychwanegol yn trosglwyddo i fod yn unedau hunan-ddarpar (trethi busnes): **500**
- Nifer yr ail gartrefi yn newid i fod yn "brif gartref": **300**
- Nifer yr ail gartrefi sy'n cael y gwahanol ddosbarthiadau o eithriad –

  Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth (am flwyddyn) (Dosbarth 1): **200**
  Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod (am flwyddyn) (Dosbarth 2): **100**
  Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd (Dosbarth 3): **50**
  Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog (Dosbarth 4): **50**
  Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod. (Dosbarth 5): **20**
  Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn (Dosbarth 6): **10**
  Anheddau cysylltiedig â gwaith (Dosbarth 7): **30**

- Nifer yr eiddo gwag hir-dymor sy'n cael y gwahanol ddosbarthiadau o eithriad –

  Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth (am flwyddyn) (Dosbarth 1): **100**
  Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod (am flwyddyn) (Dosbarth 2): **50**
  Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd (Dosbarth 3): **30**
  Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog (Dosbarth 4): **30**

- Nifer yr eiddo gwag hir-dymor sy'n parhau yn wag ar ôl 6 mis o godi premiwm: **90%**

**Ar sail y rhagdybiaethau uchod, byddai Treth Cyngor ychwanegol o:**

| | |
|---|---:|
| Ail Gartrefi | £4,035,822 |
| Eiddo gwag | £794,513 |
| **Cyfanswm** | **£4,830,335** |

Enghraifft 2

- Premiwm: **50% o'r cychwyn**
- Nifer yr ail gartrefi ychwanegol yn trosglwyddo i fod yn unedau hunan-ddarpar (trethi busnes): **250** (h.y. llai nag a fyddai petai'r premiwm yn 100%)
- Nifer yr ail gartrefi yn newid i fod yn "brif gartref": **150** (h.y. llai nag a fyddai petai'r premiwm yn 100%)
- Yr un eithriadau ag yn Enghraifft 1.

**Treth ychwanegol:**

| | |
|---|---:|
| Ail Gartrefi | £1,972,443 |
| Eiddo gwag | £794,513 |
| **Cyfanswm** | **£2,766,956** |

**2.5 Beth yw'r camau nesaf os gweithredu i godi premiwm?**

<u>Amserlen</u>

2.5.1 Dyma'r amserlen er mwyn i'r Cyngor Llawn ddod i benderfyniad yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2016:

| **Dyddiad** | **Gweithrediad** |
|---|---|
| 11/10/16 | **CYFNOD YMGYSYLLTU YN AGOR**<br>• Cyhoeddi datganiad i'r wasg i lansio'r cyfnod ymgysylltu<br>• Erthygl yn Rhaeadr i hysbysu'r Aelodau<br>• Lansio'r pecyn gwybodaeth ar-lein; y pecyn ymgysylltu ar wefan y Cyngor<br>• Lansio'r pecyn gwybodaeth yn llyfrgelloedd y sir; yr arolwg papur wedi ei ddosbarthu i'r llyfrgelloedd |
| 11/10/16 ymlaen am gyfnod o 4 wythnos | **HYRWYDDO**<br>• Cyfres o negeseuon drwy'r gwefannau cymdeithasol Twitter a Facebook |
| 04/11/2016 | **Cyfnod Ymgysylltu Cyhoeddus yn Cau** |
| 07/11/16 – 11/07/16 | **Dadansoddi a Chynhyrchu Adroddiad o'r Canlyniadau** |
| 21/11/2016 | **Gweithdy Craffu neu Cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| 22/11/2016 | **Y Cabinet i drafod canlyniadau'r ymgynghori a'r craffu a penderfynu ar argymhelliad i'r gyflwyno i'r Cyngor Llawn** |
| 30/11/2016 | **Cyhoeddi Rhaglen y Cyngor Llawn** |
| 8/12/2016 | **CYNGOR LLAWN yn penderfynu ar Premiwm Treth Cyngor 2018/19** |

Ymgynghoriad Cyhoeddus

2.5.1 Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

2.5.2 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru hefyd yn datgan "**dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio**".

2.5.3 Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 11 Hydref 2016, a bydd yn agored tan 4 Tachwedd 2016, cyfnod o oddeutu 4 wythnos. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi ei gasglu a'i ddadansoddi erbyn y Gweithdy Craffu neu gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 21 Tachwedd.

2.5.4 **Mae copi o'r holiadur i'w gael yn Atodiad 2, a'r ddogfen gefndirol sydd ar gael gyda'r holiadur yn Atodiad 3.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru

**Cynnwys**


Cyflwyniad .......... 3

Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor .......... 3

- Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor .......... 4
- Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi .......... 5

Gwneud Penderfyniad i godi Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi .......... 5

Eithriadau i Bremiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi .......... 6

- Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth .......... 7
- Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod .......... 8
- Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd .......... 8
- Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau, fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog .......... 8
- Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod .......... 8
- Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn .......... 9
- Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith .......... 9

Lleihau Atebolrwydd am Bremiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi .......... 10

Apeliadau .......... 11

Y Camau Nesaf .......... 11

- Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig .......... 11
- Gweinyddu a Gorfodi .......... 11
- Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Bremiymau'r Dreth Gyngor .......... 11
- Monitro ac Adrodd .......... 12

# Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru

## Cyflwyniad

1. O 1 Ebrill 2017, bydd Awdurdodau Lleol yn cael codi premiwm o hyd at 100% o raddfa safonol y Dreth Gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardal. Gwnaed y newidiadau i'r ddeddfwriaeth gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol yn rhai dewisol. Mae dewis codi premiwm ar gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau) felly yn benderfyniad sydd i gael ei wneud gan bob awdurdod lleol.

2. Pwrpas y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio yn eu hardal.

3. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod y premiymau a'r eithriadau yn cael eu gweithredu'n deg ac yn gyson ledled Cymru.

4. Mae'r canllawiau yn statudol ac fe'u cyhoeddir dan bwerau yn adrannau 12A (3) a 12B (4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent yn berthnasol i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

5. Ni ddylid trin y canllawiau hyn fel dehongliad o'r ddeddfwriaeth. Mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf yw dehongli deddfwriaeth, gyda'r dehongliad terfynol yn gyfrifoldeb y llysoedd.

## Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor

6. Mae paragraffau 7 - 14 yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol sy'n gyffredin i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'r gofynion sy'n benodol i gartrefi gwag hirdymor wedi eu hesbonio ym mharagraffau 15-17, ac mae'r rheiny sy'n benodol i ail gartrefi wedi eu disgrifio ym mharagraffau 18-19.

7. Mae Deddf 2014 yn diwygio Deddf 1992 drwy osod adrannau newydd 12A a 12B i mewn er mwyn galluogi awdurdod trethu (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau lle mae rhywun yn byw yn achlysurol a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).

8. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i benderfynu ar swm y premiwm hyd at uchafswm o 100% o raddfa safonol y dreth gyngor sy'n berthnasol i'r annedd.

9. Pan benderfynir codi premiwm, rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi rhybudd o'r penderfyniad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.

10. Bydd penderfyniad gan awdurdod trethu i godi premiwm hefyd yn datgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 ar gyfer anheddau lle nad oes preswylwyr.

11. Gall awdurdod trethu wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad a wnaed dan adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddi.

12. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau dan adrannau 12A(4) a 12A(5), a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i ragnodi drwy reoliadau rai dosbarthiadau o anheddau na fyddant o bosibl yn destun premiwm. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch Cymru) 2015 dan y pwerau hyn ac mae'r eithriadau y maent yn eu rhagnodi yn cael eu disgrifio yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

13. Mae system y dreth gyngor eisoes yn darparu nifer o eithriadau penodol i'r dreth gyngor. Mae'r grwpiau sydd wedi eu heithrio wedi eu rhestru yng Ngorchymyn Treth Gyngor (Anheddau wedi eu Heithrio) 1992. Mae nifer o eithriadau yn eu lle ar gyfer anheddau gwag, megis, er enghraifft:

    - lle mae'r preswylydd mewn gofal preswyl tymor hir neu yn yr ysbyty,
    - lle mae adeiladwaith annedd yn cael ei drwsio (am hyd at flwyddyn),
    - lle mae'r preswylydd wedi marw (am hyd at chwe mis ar ôl rhoi profiant neu lythyrau gweinyddu).

14. Nid yw annedd sydd wedi ei heithrio o'r dreth gyngor yn agored i bremiwm. Fodd bynnag, pan na fydd annedd bellach yn gymwys i gael ei heithrio, ond yn parhau'n wag, bydd yn dod yn agored i’r premiwm. Yn achos cartref gwag, bydd yn agored i bremiwm ar ôl iddo fod yn wag am gyfnod di-dor o flwyddyn.

**<u>Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor</u>**

15. Diffinnir annedd wag hirdymor fel annedd sydd wedi bod yn wag a heb ei dodrefnu i raddau helaeth am gyfnod di-dor o flwyddyn o leiaf.

16. Wrth benderfynu a yw annedd wedi bod yn wag am flwyddyn, nid yw unrhyw gyfnod cyn 1 Ebrill 2016 i gael ei gymryd i ystyriaeth. At hynny, ni fydd dodrefnu neu fyw mewn annedd am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor. Mewn geiriau eraill, ni all person newid statws annedd fel annedd wag hirdymor drwy fyw ynddi neu osod dodrefn am gyfnod byr.

17. Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad i godi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, efallai y bydd yn pennu gwahanol ganrannau (hyd at uchafswm o 100 y cant) ar gyfer gwahanol anheddau ar sail yr hyd o amser y maent wedi bod yn wag. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu dull graddedig gyda chynyddiadau bychain yn cael eu cymhwyso dros gyfnod.

**Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi**

18. Diffinnir ail gartref fel annedd nad yw yn unig nac yn brif gartref person ac sydd wedi ei dodrefnu'n sylweddol. Cyfeirir at yr anheddau hyn yn Neddf 1992 fel anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro ond y cyfeirir atynt yn gyffredin fel "ail gartrefi".

19. Er mwyn i bremiwm fod yn berthnasol i anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro, rhaid i'r awdurdod trethu wneud ei benderfyniad cyntaf dan adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn perthyn iddi. Mae hyn yn golygu er mwyn codi premiwm o 1 Ebrill 2017 bod rhaid i'r awdurdod trethu wneud penderfyniad cyn 1 Ebrill 2016. Rhaid gwneud penderfyniad i godi premiwm yn 2018 cyn 1 Ebrill 2017 ac felly ymlaen.

## Gwneud penderfyniad i godi Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
- chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.

21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.

22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.

- Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;
- Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;

- Patrymau’r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.

23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i’r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai’r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio.

24. Ar ôl penderfynu codi premiwm, yn ychwanegol at yr angen i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod, dylai awdurdod lleol ystyried sut i gyfleu ei benderfyniad yn ehangach, yn enwedig i'r rheiny y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt. Gall wneud hyn drwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, rhoi gwybodaeth ar dudalennau gwefan neu ddulliau eraill o godi ymwybyddiaeth megis, er enghraifft, cyfathrebu uniongyrchol â threthdalwyr y cyngor sy'n debygol o fod yn agored i'r premiwm. Efallai y bydd yr awdurdod lleol hefyd yn dymuno rhoi ystyriaeth i'r modd y mae’n rhoi gwybod ac yn hysbysu'r rheiny y gall y premiwm effeithio arnynt ond sydd fel rheol yn byw y tu allan i'r ardal leol.

## Eithriadau i Bremiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

25. Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru iddynt wneud rheoliadau i ragnodi un neu ragor o ddosbarthiadau o anheddau na chaiff awdurdod trethu wneud penderfyniad i godi premiwm mewn perthynas â hwy. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch) (Cymru) 2015 dan y pwerau hyn - ni cheir codi premiwm ar annedd sy'n dod o fewn eithriad. Rhaid i awdurdod lleol gymryd yr eithriadau hyn i ystyriaeth cyn penderfynu gweithredu premiwm.

26. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau sydd wedi eu heithrio. Mae Dosbarthiadau 1,2,3 a 4 yn ymwneud â chartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi. Ag ail gartrefi yn unig y mae a wnelo Dosbarthiadau 5,6 a 7. Mae'r dosbarthiadau o anheddau wedi eu hamlinellu yn y tabl isod a rhoddir mwy o fanylion yn eu cylch ym mharagraffau 28 - 46.

| Dosbarthiadau o Anheddau | Diffiniad | Cymhwysiad |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn | Cartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi |
| Dosbarth 2 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn | |
| Dosbarth 3 | Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd | |
| Dosbarth 4 | Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog | |
| Dosbarth 5 | Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod. | Ail Gartrefi |
| Dosbarth 6 | Cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn | |
| Dosbarth 7 | Anheddau cysylltiedig â gwaith | |

27. Disgrifir pob eithriad ymhellach yn yr adran nesaf. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth
- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod
- anheddau cysylltiedig â gwaith.

**Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth**

28. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond bod y gwerthiant heb ei gwblhau eto.

29. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gwerthu am bris rhesymol. Wrth ystyried a yw pris yn rhesymol, dylid ystyried prisiau gwerthu anheddau tebyg yn yr ardal. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

30. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatawyd yr eithriad. Wedi i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sy'n

cael ei marchnata fel annedd ar werth yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi cael ei gwerthu.

**Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod**

31. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes gan y tenant hawl eto i fyw yn yr eiddo am nad yw'r denantiaeth wedi cychwyn eto.

32. Er mwyn bod yn gymwys i'r eithriad hwn, rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gosod am rent rhesymol, sef y rhent y disgwylid i'r eiddo ei ennill o ystyried y rhent a godir am anheddau cyffelyb. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

33. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatawyd yr eithriad. Wedi i'r cyfnod eithrio ddod i ben, ni fydd annedd sy'n cael ei marchnata fel annedd ar osod yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi bod yn destun tenantiaeth a roddwyd am gyfnod o chwe mis neu ragor.

**Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd**

34. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.

35. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae perchennog wedi addasu ei annedd i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r brif annedd.

**Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog**

36. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.

37. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun ond sy'n wag oherwydd bod y person hwnnw yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog.

38. Bwriedir i'r eithriad hwn hefyd gynnwys personél y lluoedd arfog y mae eu cartrefi'n wag oherwydd eu bod yn byw yn llety'r lluoedd arfog dramor.

**Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod sy’n cael eu defnyddio.**

39. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n cynnwys safle lle mae carafán yn sefyll neu angorfa lle mae cwch wedi ei angori, lle nad oes neb yn preswylio yn y cwch neu'r garafán, ond pan fydd yn cael ei defnyddio nesaf fydd yn unig neu'n brif breswylfa person.

**Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn**

40. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n berthnasol i anheddau sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswylio am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf yn unrhyw gyfnod o 12 mis.

41. Bwriadwyd yr eithriad hwn i gynnwys cartrefi gwyliau pwrpasol neu hafotai sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswylio ar hyd y flwyddyn. Mae'r eithriad yn seiliedig ar ddiffiniad y disgownt dewisol presennol ar gyfer cartrefi tymhorol (Dosbarth A) yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998[1].

**Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith**

42. Nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol ond i'r premiwm ar ail gartrefi ac mae'n ymwneud ag annedd lle mae person yn byw sydd:

- yn berson cymwys mewn perthynas â'r annedd, ond sy'n preswylio mewn annedd arall sy'n gysylltiedig â gwaith (fel y'i diffiniwyd yn Atodlen 1 y Rheoliadau); neu
- yn berson cymwys mewn perthynas ag annedd sy'n gysylltiedig â gwaith.

43. Diffinnir person cymwys fel:

- person sy'n agored i dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a yw hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio; a
- pherson fyddai'n agored i’r dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a fyddai hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio, os nad oedd yr annedd honno yn dod o fewn:

    i. Dosbarth O Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau sydd wedi eu heithrio) 1992; neu
    ii. Dosbarth E Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion) 1992.

44. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae gofyn i berson breswylio mewn annedd gysylltiedig â gwaith. Mae'n berthnasol i ail gartref lle mae rhywun yn byw'n achlysurol oherwydd bod angen i berson fyw mewn llety

---

[1] SI 1998 Rhif 105

cysylltiedig â gwaith yn rhywle arall. Mae hefyd yn berthnasol lle mae’r llety cysylltiedig â gwaith yn ail gartref person.

45. Rhoddir diffiniad o annedd gysylltiedig â gwaith yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Er bod yr eithriad hwn yn debyg i'r disgownt cysylltiedig â gwaith dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998, mae'n wahanol oherwydd nad yw'r disgownt yn berthnasol ond os yw'r annedd gysylltiedig â gwaith yn unig neu brif breswylfa person.

46. Gwahaniaeth arall i'r disgownt ar gyfer annedd gysylltiedig â gwaith yw nad oes gofyn i'r trethdalwr fod yn atebol am y dreth gyngor o ran dwy annedd, sy'n golygu y gall person sydd â phrif gartref dramor neu annedd gysylltiedig â gwaith dramor hefyd elwa o'r eithriad. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

## Lleihau Atebolrwydd am Bremiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag-Hirdymor ac Ail Gartrefi

47. O dan adran 13A o Ddeddf 1992, mae gan awdurdod trethu bwerau dewisol i leihau atebolrwydd am dreth gyngor i'r cyfryw raddau ag y mae'r awdurdod trethu yn meddwl sy'n addas. Gellir arfer y grym mewn achosion neilltuol neu drwy benderfynu dosbarth neu achos. Gellir defnyddio'r grym i leihau atebolrwydd am dreth gyngor mewn amgylchiadau lle y byddai awdurdod lleol fel arall yn codi premiwm.

48. Mae rhai enghreifftiau i ddarlunio lle y gallai awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn yn cynnwys:

- lle mae rhesymau pam na ellid byw yn yr annedd;
- lle mae rhesymau pam na ellid gwerthu neu osod yr annedd;
- lle mae cynnig wedi cael ei dderbyn ar eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto ac mae'r cyfnod eithrio wedi dod i ben;
- lle y gallai codi premiwm achosi caledi.

49. Nid yw'r rhestr uchod yn derfynol a bydd ar awdurdodau trethu eisiau ystyried yr holl ffactorau y maent yn meddwl eu bod yn berthnasol.

50. Mater i awdurdod lleol yw p'un a yw pwerau dewisol 13A yn cael eu defnyddio i leihau atebolrwydd am dreth gyngor o ran y premiwm. Er mwyn tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ar p'un a ddefnyddir y pwerau hyn ai peidio a sut. Dylai'r awdurdod, fodd bynnag, ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ar ôl cymryd amgylchiadau'r achos i ystyriaeth.

51. Dylid nodi y bydd trafodaethau ynghylch defnyddio pwerau dewisol 13A yn debygol o fod yn wahanol pan gânt eu hystyried i leihau atebolrwydd am dreth gyngor sy'n ganlyniad premiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd am raddfa safonol y dreth gyngor. Mae hyn oherwydd bod anheddau sy'n agored i bremiwm eisoes yn agored i'r raddfa safonol o dreth gyngor.

## Apeliadau

52. Os bydd person yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy gyfrifiad yr awdurdod lleol o swm y dreth gyngor y mae'n atebol amdano, gan gynnwys ei atebolrwydd i dalu premiwm, rhaid iddo, yn y lle cyntaf, apelio at ei awdurdod lleol.

53. Os bydd yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy benderfyniad yr awdurdod lleol neu os na fydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad o fewn y cyfnod o amser sy'n ofynnol, gall apelio at Dribiwnlys Prisio Cymru ond dim ond ar ôl dihysbyddu proses apelio'r awdurdod lleol.

54. Ceir gwybodaeth bellach am y broses apelio ar wefan Tribiwnlys Prisio Cymru drwy'r cyswllt isod:

    http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/home.html

## Y Camau Nesaf

**Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig**

55. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gweinyddu a gorfodi'r premiwm, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i adlewyrchu cyflwyno'r premiwm, er enghraifft, newidiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth ac i'r broses apelio.

**Gweinyddu a Gorfodi**

56. Er mwyn bod o gymorth i awdurdodau lleol gyda gweinyddu a gorfodi'r premiymau, yn enwedig cymhwyso'r eithriadau, darperir arweiniad ychwanegol.

57. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan rai awdurdodau ynglŷn ag anawsterau gweinyddol a ffyrdd posibl o gamddefnyddio, bydd yr arweiniad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

    - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth;
    - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod; ac
    - anheddau cysylltiedig â gwaith.

**Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Bremiymau'r Dreth Gyngor**

58. Bydd awdurdod lleol yn cael cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiwm a gwneir diwygiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth er mwyn hwyluso hyn. Fodd bynnag, anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

59. Caiff gofynion penodol o ran adrodd am y refeniw ychwanegol a gynhyrchwyd, a'r defnydd ohono yn ddiweddarach, eu hegluro mewn arweiniad pellach. Rhoddir rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn yr adran nesaf.

**Monitro ac Adrodd**

60. Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw'r premiymau ac er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y defnydd a wneir ohonynt ar gael yn glir i drethdalwyr lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro ac adrodd am weithrediad y premiymau.

61. Caiff y gofynion penodol mewn perthynas â hyn eu hesbonio mewn arweiniad pellach a gyhoeddir cyn Ebrill 2017. Mae hwn yn debygol o gynnwys:

- Nifer yr adeiladau sy'n agored i'r premiwm:
- Yr incwm ychwanegol a godwyd drwy weithredu'r premiymau;
- Sut y cafodd unrhyw incwm ychwanegol ei ddefnyddio;
- Nifer y cartrefi gwag yr adferwyd eu defnydd.

62. Mae modiwl newydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar Datatank i awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth fodelu, monitro ac adrodd ar y premiymau. Bydd hwn ar gael i'r holl awdurdodau lleol yn y Flwyddyn Newydd.

Tîm Trethi Lleol
Llywodraeth Cymru
Rhagfyr 2015

## Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd

Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn diffinio **ail gartref** fel *"annedd lle nad oes trigolyn ac y mae wedi ei ddodrefnu yn sylweddol".*

Mae Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn diffinio **eiddo gwag hir-dymor** fel *"annedd nas meddiannwyd ac sydd heb ei ddodrefnu yn sylweddol".*

### Premiwm Treth Cyngor

**1 A ydych chi'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd (yn ôl y diffiniad sydd yn nogfen gefndir yr ymgynghoriad)?**

- ○Ydw – annedd gwag hirdymor
- ○Ydw – ail gartref
- ○Ydw – annedd gwag hirdymor ac ail gartref
- ○Nac ydw

**2 Beth yw eich Côd Post?**
Ysgrifennwch eich ateb yma:

**3 A welwch chi reswm dros beidio codi premiwm ar Dreth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd?**

**Er gwybodaeth, mae sawl cyngor gwledig megis Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ceredigion a Cyngor Sir Penfro eisoes wedi penderfynu cyflwyno premiwm o'r fath.**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:
- ○Dim rheswm i beidio codi Premiwm
- ○Ni ddylid codi'r Premiwm

**4 Nodwch y rheswm / rhesymau pam os gwelwch yn dda:**
**Atebwch y cwestiwn hwn os yw'r amodau canlynol wedi'u diwallu:**
° Ateb oedd 'Ni ddylid codi'r Premiwm' i gwestiwn '3' (A welwch chi reswm dros beidio codi premiwm ar Dreth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd?

Ysgrifennwch eich ateb yma:

**5 Nodwch ar ba lefel yn eich barn chi y byddai'n fwyaf priodol codi Premiwm ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd:**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:
- ○25%
- ○50%

- ◯75%
- ◯100%
- ◯Arall

**6 A ddylai'r Cyngor bennu gwahanol ganrannau (hyd at uchafswm o 100%) ar sail yr hyd o amser y mae eiddo gwag hirdymor wedi bod yn wag?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

- ◯Dylai
- ◯Na ddylai

**7 Anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol yn unol â bwriadau polisi'r premiymau, ond nid oes rheidrwydd cyfreithiol i ddefnyddio'r refeniw ychwanegol i wneud hyn.**

**O gofio bod y Cyngor yn wynebu toriadau ariannol sylweddol, yn eich barn chi sut dylai'r Cyngor ddefnyddio'r incwm ychwanegol, petai'r Premiwm yn cael ei gyflwyno?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

- ◯Dylid defnyddio'r refeniw ychwanegol i ddiwallu anghenion tai lleol
- ◯Dylid gwario'r refeniw ychwanegol i gefnogi gwasanaethau lleol pan mae'r Cyngor yn wynebu toriadau
- ◯Cyfuniad o'r ddau opsiwn uchod

**8 Yn eich barn chi, petai premiwm yn cael ei <u>godi</u> ar Dreth Cyngor anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi, <u>beth fyddai effaith hynny yng Ngwynedd ar</u> ...**

**9 Yr iaith Gymraeg?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

- ◯Cadarnhaol
- ◯Niwtral
- ◯Negyddol

**10 Buasem yn ddiolchgar petaech yn nodi rheswm dros eich ateb neu gynnig sylwadau pellach:**

Ysgrifennwch eich ateb yma:

**11 Yr economi leol a thwristiaeth?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

- ◯Cadarnhaol
- ◯Niwtral
- ◯Negyddol

**12 Buasem yn ddiolchgar pe baech yn nodi rheswm dros eich ateb neu gynnig sylwadau pellach**

Ysgrifennwch eich ateb yma:

**13 Nifer y tai rhentu preifat sydd ar gael?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

- ○Cynnydd yn gyffredinol
- ○Dim effaith
- ○Lleihad yn gyffredinol

**14 Buasem yn ddiolchgar pe baech yn nodi rheswm dros eich ateb neu gynnig sylwadau pellach**

Ysgrifennwch eich ateb yma:

**15 Prisiau tai yng Ngwynedd?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

- ○Cynnydd yn gyffredinol
- ○Dim effaith
- ○Lleihad yn gyffredinol

**16 Buasem yn ddiolchgar pe baech yn nodi rheswm dros eich ateb neu gynnig sylwadau pellach**

Ysgrifennwch eich ateb yma:

**17 Nifer y tai fforddiadwy yng Ngwynedd?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

- ○Mwy o dai
- ○Dim newid
- ○Llai o dai

**18 Buasem yn ddiolchgar pe baech yn nodi rheswm dros eich ateb neu gynnig sylwadau pellach**

Ysgrifennwch eich ateb yma:

**19 Buasem yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach sydd gennych am yr ymgynghoriad hwn:**

Ysgrifennwch eich ateb yma:

**20 Ble clywsoch chi am yr ymgynghoriad hwn?**

Ysgrifennwch eich ateb yma:

**<u>Monitro Cydraddoldeb</u>**

**21 Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth isod. Rydym yn casglu'r wybodaeth i bwrpas monitro'n unig, ac fe <u>fydd pob ymateb yn gwbl gyfrinachol.</u> Cewch ddewis peidio ag ateb unrhyw gwestiwn neu gwestiynau os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.**

**22 Beth yw eich Côd Post?**
Ysgrifennwch eich ateb yma:

**23 Ydych chi'n...**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:
- ○Ddyn
- ○Ddynes
- ○Meddwl am eich hunan mewn ffordd wahanol

**24 Beth yw eich grŵp oedran?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:
- ○17 neu iau
- ○18 - 29
- ○30 - 39
- ○40 - 49
- ○50 - 59
- ○60 - 69
- ○70 neu hŷn

**25 Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl (yn ôl diffiniad Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995)***

***Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn disgrifio rhywun anabl fel unrhyw un 'gyda nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a thymor-hir ar eu gallu i wneud gweithgareddau beunyddiol normal'.***

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:
- ○Ydw
- ○Nac Ydw

# <u>Ymgynghori ynglŷn â chodi Treth Cyngor ychwanegol ("Premiwm Treth Cyngor") ar dai sy'n wag yn yr hir dymor ac ar ail gartrefi</u>

## Cyflwyniad

Rydym yn ymgynghori er mwyn derbyn barn gan drethdalwyr Gwynedd, perchnogion tai ac eraill ar sut y dylai'r Cyngor weithredu'r grym sy'n caniatáu cyflwyno Premiwm Treth Cyngor hyd at uchafswm o 100% ar anheddau gwag hir dymor ac ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

## Cefndir

Treth leol ar eiddo domestig yw Treth Cyngor. Y Cyngor sy'n anfon y biliau ac yn casglu'r dreth. Defnyddir yr arian sy'n cael ei godi trwy Dreth Cyngor i ariannu gwasanaethau lleol.

Mae rheoliadau presennol yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, neu ganiatáu disgownt o 25% neu 50% i **ail gartrefi**, ac i ganiatáu disgownt o 50%, neu raddfa lai, neu ddim disgownt o gwbl, ar **anheddau gwag hir dymor.**

Ers sawl blwyddyn, mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu nad yw am ganiatáu unrhyw ddisgownt ar dai gwag hir dymor nac ar ail gartrefi. Rhaid i'r Cyngor llawn gymryd y penderfyniad yma'n flynyddol; gwnaeth y Cyngor llawn y penderfyniad o beidio caniatáu disgownt ar gyfer 2016/17 mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2015.

Bellach, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu Adrannau 12A a 12B at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (sef y Ddeddf a gyflwynodd Treth Cyngor) er mwyn cynnwys hawl i gynghorau i godi Premiwm ychwanegol o **ddim mwy na 100%** ar eiddo gwag hir dymor (Adran 12A) ac ail gartrefi (Adran 12B).

Rhaid i'r Cyngor wneud y penderfyniad cyntaf i godi Premiwm ar ail gartrefi o leiaf un flwyddyn cyn cychwyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Felly, os yw'r Cyngor am godi premiwm ar ail gartrefi o 2018/19 ymlaen, bydd rhaid i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad cyn 31 Mawrth 2017.

Wrth benderfynu yn flynyddol i beidio caniatáu disgownt Treth Cyngor i anheddau gwag hir dymor, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddai cynnig unrhyw ddisgownt yn rhoi cymhelliad niweidiol i berchnogion gadw tai yn wag. Mae'n rhan o Strategaeth Tai Gwag fod y Cyngor am weithredu ei ddisgresiwn i godi 100% o Dreth Cyngor ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir, fel cymhelliad i ail-ddefnyddio'r anheddau hyn. Y disgwyliad yw y byddai codi premiwm ar eiddo gwag yn gymhelliad pellach i'r perwyl hwn.

## Beth a olygwn gydag “ail gartrefi” ac “anheddau gwag hir dymor”?

Diffinnir **annedd wag hir dymor** fel annedd sydd wedi bod yn wag a heb ei dodrefnu i raddau helaeth am gyfnod di-dor o flwyddyn o leiaf. Diffinnir **ail gartref** fel annedd nad yw yn unig nac yn brif gartref person ac sydd wedi ei dodrefnu'n sylweddol. Cyfeirir at yr anheddau hyn yn Neddf 1992 fel anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro ond cyfeirir atynt yn gyffredin fel "ail gartrefi".

## Eithriadau

Yn ôl y gyfraith, bydd rhai anheddau gwag hir dymor ac ail gartrefi yn gymwys i eithriad rhag talu’r Premiwm. Mae’r tabl isod yn dangos yr eithriadau sy’n bodoli, a pha eiddo sy’n gymwys ar gyfer yr eithriadau hyn:

| **Dosbarthiadau o Anheddau** | **Diffiniad** | **Y math o eiddo sy’n gymwys i’r eithriad rhag talu’r premiwm** |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn | Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi |
| Dosbarth 2 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn | |
| Dosbarth 3 | Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o’r brif annedd | |
| Dosbarth 4 | Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog | |
| Dosbarth 5 | Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod | Ail Gartrefi |
| Dosbarth 6 | Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn | |
| Dosbarth 7 | Anheddau cysylltiedig â gwaith | |

Yn ogystal â hyn, dylid nodi na all y Cyngor godi premiwm ar unrhyw eiddo lle na ellir codi Treth Cyngor sylfaenol ar hyn o bryd.

## Beth yw’r prif ystyriaethau sy’n rhaid eu pwyso a’u mesur?

- Gwynedd yw’r sir sydd â’r gyfradd uchaf o ail gartrefi yng Nghymru a Lloegr. Yng Ngorffennaf 2016 roedd 4,867 o ail gartrefi yn talu Treth Cyngor ac a fyddai’n gymwys i dalu’r premiwm.

- Yng Ngorffennaf 2016, roedd cyfanswm o 1,115 cartref wedi bod yn wag ers dros 1 mlynedd. O’r rhain:

  Roedd 714 wedi bod yn wag ers dros 2 flynedd
  Roedd 513 wedi bod yn wag ers dros 3 mlynedd
  Roedd 389 wedi bod yn wag ers dros 4 blynedd.

Cynhaliwyd astudiaeth fanwl yn 2013 ar niferoedd ac effaith ail gartrefi o fewn Gwynedd. Rhai o brif ddarganfyddiadau'r astudiaeth yma oedd:

- Nid yw effaith ail gartrefi yn gyfyngedig i ardaloedd penodol. Mae'r cymunedau sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi yn eang a gwasgaredig.
- Mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi, mae effaith 'allanol' marchnad gref ar gyfer tai, ynghyd â'r ffaith bod y stoc o dai sydd ar gael ar gyfer defnydd preswyl yn yr ardaloedd hynny wedi lleihau yn gwthio prisiau tai i fyny.
- Mae'r gwaith wedi dod i'r casgliad bod lefelau incwm isel a phrisiau tai uchel mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi yn ei gwneud yn amhosibl i'r rhan fwyaf o breswylwyr i fforddio tai yn eu cymunedau.
- Mae cymharu canlyniadau'r ddau gyfrifiad mwyaf diweddar yn dangos dirywiad yn y ganran o siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau gyda dwysedd uchel o ail gartrefi.
- Gall atebion lleol drwy gyfrwng tai fforddiadwy, os oes adnoddau ar gael, helpu'r sefyllfa mewn cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi, heb gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- Mae ardaloedd sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran gwasanaethau sylfaenol. Mae niferoedd uchel o ail gartrefi yn lleihau sylfaen poblogaeth yr ardaloedd hynny, gan effeithio felly ar gynaliadwyedd gwasanaethau.
- Nid yw dwysedd uchel o ail gartrefi o reidrwydd yn cyfateb i ardaloedd 'cefnog'. Yn wir, mae llawer o'r cymunedau yr effeithir arnynt yn ardaloedd difreintiedig.
- Mae ail gartrefi yn arwain at fethiant i wneud y defnydd gorau o'r stoc dai yn y cymunedau dan sylw.
- Bydd effaith naturiol ar wasanaethau lleol, fel siopau a swyddfeydd post, oherwydd eu defnydd is yn sgîl lefel is o boblogaeth. Bydd ail gartrefi yn lleihau'r nifer o siopau y gellir eu cefnogi gan y boblogaeth breswyl.
- Mae ail gartrefi yn lleihau'r galw am lety i dwristiaid yn y cymunedau dan sylw, sy'n effeithio ar gynaliadwyedd busnesau lleol megis gwestai, llety hunanarlwyo a charafanau / safleoedd gwersylla.
- Mae demograffeg cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol - yn gyffredinol mae'r boblogaeth sy'n byw yno yn 'hŷn'. Mae hyn yn effeithio ar y cydbwysedd rhwng y cymunedau a fydd yn cael effaith ar ddyfodol a chynaliadwyedd yr ardaloedd hyn.
- Mae'r ffaith bod perchnogion ail gartrefi eu hunain yn gyffredinol o oedran / proffil cyfoeth gwahanol i'r boblogaeth breswyl yn cynyddu'r anghydbwysedd yn strwythur y cymunedau dan sylw. Yn ogystal, mae'r ffaith syml eu bod yn absennol am gyfran sylweddol o'r flwyddyn yn cyfyngu ar eu gallu i gyfrannu at weithgareddau cymunedol lleol ac at yr economi leol.
- Ceir costau uwch wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi, oherwydd proffil oedran hŷn y defnyddwyr gwasanaeth ac anhawster wrth ragweld y galw am y gwasanaeth.

- Nid yw costau darparu gwasanaethau awdurdod lleol i drigolion mewn ail gartref yn cael eu cydnabod yn y fformiwla sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn. Pe byddai pobl yn byw yn barhaol yn yr ail gartrefi yng Ngwynedd, byddai'r awdurdod yn derbyn grant canolog mwy sylweddol a fyddai'n gorbwyso costau gwasanaethu'r boblogaeth uwch. Mewn gwirionedd, mae trigolion Gwynedd yn sybsideiddio'r rhan fwyaf o'r costau o ddarparu gwasanaethau ar gyfer perchnogion ail gartrefi.

- Gellid defnyddio cyllid ychwanegol gan gynyddu'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n wynebu cymunedau yn yr ardaloedd hynny. Er enghraifft, i wella cyflwr y stoc dai (sy'n waeth yng Ngwynedd nag ardaloedd eraill) a fforddiadwyedd tai.

## Defnyddio'r Premiwm

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd awdurdod lleol yn cael cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiwm (ac mae'r Llywodraeth wedi nodi y byddant y diwygio cyfrifiad sylfaen y dreth er mwyn hwyluso hyn). Fodd bynnag, anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau, ond nid oes rheidrwydd cyfreithiol i ddefnyddio'r refeniw ychwanegol i wneud hyn.